# Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19

Rhagfyr 2017

## Cyflwyniad

1. Mae'r adroddiad hwn yn nodi barn y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ('y Pwyllgor') am gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19 mewn cysylltiad â'r meysydd polisi hynny sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor. Mae hefyd yn crybwyll rhai materion polisi ac ariannol ehangach a godwyd yn ystod ein sesiynau craffu ar y gyllideb.

2. Dyma'r tro cyntaf i'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad ar wahân ar y gyllideb ddrafft. Gwneir hyn yn sgil cyflwyno newidiadau i weithdrefnau ariannol y Cynulliad a mabwysiadu protocol newydd ar gyfer craffu ar y gyllideb.

3. Ynghyd ag adroddiad y Pwyllgor Cyllid ac adroddiadau'r pwyllgorau craffu eraill, bwriad yr adroddiad hwn yw cyfrannu at ddadl y Cynulliad ar y gyllideb ddrafft, a drefnwyd ar gyfer 5 Rhagfyr 2017.

## Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19

4. Ar 3 Hydref 2017, gosododd Llywodraeth Cymru ei chynigion amlinellol ar gyfer cyllideb ddrafft 2018-19. Roedd y rhain yn nodi'r dyraniadau ar gyfer y prif grwpiau gwariant (MEG). Gosodwyd y gyllideb ddrafft fanwl, a oedd yn cynnwys y meysydd gwariant unigol o fewn pob MEG, ar 24 Hydref 2017. Roedd hon yn cynnwys cynlluniau gwariant y llywodraeth ar gyfer 2018-19, ynghyd â chyllidebau refeniw dangosol ar gyfer 2019-20 a chynlluniau cyfalaf dangosol hyd 2020-21.

5. Y prif grwpiau gwariant a oedd yn rhan o gylch gorchwyl y Pwyllgor ar yr adeg y cyhoeddwyd y gyllideb ddrafft oedd y MEG Llywodraeth Leol a'r MEG Cymunedau

a Phlant.[1] O fewn y MEG Cymunedau a Phlant cyffredinol, yr elfennau penodol sy'n berthnasol i'r Pwyllgor yw Cymunedau, Cydraddoldeb, Tai, Adfywio a Diogelwch Cymunedol.[2]

**6.** Ar ôl aildrefnu'r Cabinet ar 3 Tachwedd 2017 a newid portffolios yr Ysgrifenyddion a'r Gweinidogion, mae'r cyfrifoldebau a oedd gynt yn y portffolio Cymunedau a Phlant bellach yn nwylo Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, y Gweinidog Tai ac Adfywio, ac Arweinydd y Tŷ. Bellach mae cyfrifoldebau sy'n ymwneud â llywodraeth leol, a arferai fod yn rhan o bortffolio Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, yn nwylo Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus.

## Dull y Pwyllgor o graffu ar y gyllideb

**7.** Ar 25 Hydref 2017, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan gynrychiolwyr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLG) a Chymdeithas Trysoryddion Cymru ynglŷn â'r blaenoriaethau a'r pwysau sy'n wynebu llywodraeth leol yng Nghymru. Defnyddiwyd y dystiolaeth hon i gyfrannu at waith y Pwyllgor o graffu ar y gyllideb.

**8.** Ar 15 Tachwedd 2017, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, y Gweinidog Tai ac Adfywio ac Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip ynglŷn â chynigion y gyllideb. Ysgrifennodd y Pwyllgor at aelodau'r Cabinet wedi hynny yn gofyn iddynt ymdrin â nifer o faterion na lwyddwyd i ymdrin â hwy yn ystod y sesiwn, oherwydd prinder amser. Rhoddir copi o'r llythyr hwn a'r ymatebion a ddaeth i law ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

**9.** Byddem yn croesawu ymateb i'n hadroddiad a'n hargymhellion, er mwyn cyfrannu at y gwaith parhaus o graffu ar y gyllideb a'n gwaith craffu ehangach ar faterion ariannol.

[1] Ysgrifennodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ar 21 Tachwedd yn nodi ei fwriad i ailddatgan y prif grwpiau gwariant a thablau'r llinellau gwariant yn y gyllideb (BEL) i adlewyrchu portffolios newydd yr Ysgrifenyddion a'r Gweinidogion cyn y ddadl ar y gyllideb ddrafft.
[2] Daw'r elfennau sy'n weddill o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

# Y prif grŵp gwariant llywodraeth leol

## Crynodeb

**11.** Mae'r prif grŵp gwariant (MEG) Llywodraeth Leol yn cynnwys cyfanswm y Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) (adnoddau a chyfalaf) a'r Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME), ar ffurf Trethi Annomestig neu Ardrethi Busnes. Yr arian a ddyrannwyd i'r MEG Llywodraeth Leol ar gyfer 2018-19 yw £4.5 biliwn.

**12.** Mae'r MEG Llywodraeth Leol yn cynnwys cyllid ar gyfer awdurdodau lleol drwy'r Setliad Llywodraeth Leol, cyllid ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, cyllid ar gyfer Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, yr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol ac Estyn, a rhaglenni gwariant eraill.

**13.** Cynigir cynyddu adnodd refeniw Llywodraeth Leol £37.5 miliwn, o'i gymharu â llinell sylfaen ddiwygiedig 2017-18. Mae hyn yn cynnwys trosglwyddo cyllid gwerth £45.6 miliwn i mewn i'r MEG Llywodraeth Leol ac allan ohono. Mae'r cyfalaf yn parhau ar yr un lefel â 2017-18, sef £143.1 miliwn. Cyfanswm yr AME ar gyfer 2018-19 yw £1.05 biliwn, sef £7 miliwn yn llai nag yn 2017-18. Mae hyn yn gyfystyr â chynnydd net o £30.5 miliwn yn y MEG Llywodraeth Leol.

## Setliad Llywodraeth Leol dros dro 2018-19

**14.** Cyllid refeniw cyffredinol llywodraeth leol yw'r dyraniad mwyaf o fewn y MEG Llywodraeth Leol. Darperir hwn i awdurdodau lleol trwy'r setliad llywodraeth leol ('y setliad'), sy'n amlinellu'r cyllid refeniw a chyfalaf a ddyrennir i bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Caiff y setliad ei ddosbarthu ymhlith yr awdurdodau gan ddilyn fformiwla sy'n seiliedig ar angen. Mae hon yn cynnwys dangosyddion sy'n rhoi ystyriaeth i nodweddion awdurdod, megis poblogaeth, pa mor brin yw'r boblogaeth, ac amddifadedd.

**15.** Cyhoeddwyd y setliad llywodraeth leol dros dro ar gyfer 2018-19 ar wahân i'r gyllideb ddrafft, ar 10 Hydref 2017. Dengys mai Cyngor Caerdydd yw'r unig awdurdod i gael cynnydd mewn cyllid (0.2 y cant). Bydd pob awdurdod arall yn cael gostyngiad o hyd at 1 y cant. Bydd chwe awdurdod lleol yn cael y gostyngiad mwyaf posibl, sef 1 y cant, yn 2018-19.

**16.** Yn 2016-17, sefydlodd Llywodraeth Cymru gyllid gwaelodol, sy'n golygu na fyddai'r un awdurdod yn cael gostyngiad o fwy na 0.5 y cant. Eleni, sicrhaodd y cyllid gwaelodol na fyddai'r un awdurdod yn wynebu gostyngiad o fwy nag 1 y cant. Rhoddir cyllid ychwanegol i'r chwe awdurdod lleol sy'n cael y gostyngiad o 1 y cant, er mwyn sicrhau nad yw'r gostyngiad yn fwy na'r swm hwnnw. Darparwyd

cyfanswm o £1.8 miliwn o gyllid ychwanegol trwy gronfeydd wrth gefn y Llywodraeth Ganolog.

## Casgliad cyffredinol

**17.** Rydym yn cydnabod bod cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19 wedi'i gosod yng nghyd-destun agenda cyni Llywodraeth y DU, sydd wedi arwain at doriadau parhaus i'r cyllid a roddir i Gymru. Mae'n amlwg bod agwedd Llywodraeth y DU tuag at bolisi cyllidol yn parhau i fod yn her sylweddol ac i beri rhwystredigaeth fawr i Lywodraeth Cymru ac i lywodraeth leol. O gofio hyn, ac o gofio'r gostyngiadau mewn dyraniadau ar draws y prif grwpiau gwariant eraill, rydym o'r farn bod y dyraniad i'r MEG Llywodraeth Leol, sydd wedi gweld cynnydd bychan ers 2017-18, yn ddealladwy.

**18.** Nodwn fod y gyllideb iechyd wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf o'i chymharu â chyllideb llywodraeth leol. Wrth roi sylwadau am hyn, dywedodd CLlLC fod gwasanaethau lleol yn mynd i fod mewn sefyllfa anodd iawn o gofio'r polisïau cyni a'r ffaith fod blaenoriaeth wedi cael ei rhoi i'r gwasanaeth iechyd.[3] Rydym yn nodi barn CLlLC bod yn rhaid i'r drefn o flaenoriaethu adnoddau gael sylw blaenllaw wrth ystyried y gyllideb dros y pum mlynedd nesaf, o ystyried graddfa'r pwysau sy'n wynebu awdurdodau lleol.[4]

**19.** Er gwaethaf ein barn ynglŷn â'r dyraniad cyffredinol ar gyfer y MEG Llywodraeth Leol, nodwn fod awdurdodau lleol wedi cael 0.5 y cant yn llai o gyllid trwy'r setliad llywodraeth leol, sy'n cyfateb i tua £20 miliwn. Yn ôl CLlLC, nid yw'r ffigur hwn yn cyfleu'r darlun cyflawn ac y bydd rhaid i'r sector geisio arbed 4.5 y cant o'r cyllidebau net, o gofio'r pwysau ar y gwasanaethau yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.[5] Pan ofynnwyd iddo, nid oedd Ysgrifennydd y Cabinet yn dadlau i'r gwrthwyneb.[6]

**20.** Dywedodd CLlLC fod sefyllfa ariannol llywodraeth leol yn dod yn anghynaliadwy ac na ellir parhau â lefelau presennol y straen ariannol y mae cynghorau'n eu hwynebu.[7] Er bod Ysgrifennydd y Cabinet yn cydnabod y pwysau ariannol parhaus sy'n wynebu'r sector, haerodd fod Llywodraeth Cymru wedi ceisio amddiffyn awdurdodau lleol yng Nghymru rhag toriadau ar y lefelau a brofwyd gan awdurdodau yn Lloegr.[8] Er ein bod yn derbyn y datganiad hwn, mae'n parhau i fod

[3] Cofnod y Trafodion, para 9, 25 Hydref 2017
[4] Tystiolaeth Ysgrifenedig, ELGC(5)-30-17 Papur 1
[5] Tystiolaeth Ysgrifenedig, ELGC(5)-30-17 Papur 1
[6] Cofnod y Trafodion, paragraff 18, 15 Tachwedd 2017
[7] Tystiolaeth Ysgrifenedig, ELGC(5)-30-17 Papur 1
[8] Cofnod y Trafodion, paragraff 18, 15 Tachwedd 2017

yn wir bod llywodraeth leol yng Nghymru wedi gweld toriadau mewn cyllid ers dechrau'r cyfnod o gyni a'i bod, yn ôl CLlLC, bellach yn ôl ar lefelau 2004-05.[9]

**21.** Rydym yn ymwybodol iawn o effaith cyfnod hir o gyni ar lywodraeth leol. Nid ydym yn bychanu'r heriau y mae awdurdodau'n eu hwynebu wrth barhau i ddarparu a gwella gwasanaethau i gymunedau yng Nghymru â chyllidebau llai. Credwn ei bod yn ddyletswydd ar Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol i gydweithio i ddod o hyd i atebion a fydd yn sicrhau cyllid cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau lleol hanfodol, megis addysg a gofal cymdeithasol, ond hefyd ar gyfer gwasanaethau heb eu diogelu megis gwasanaethau cynllunio a rheoleiddio, yn ogystal â llyfrgelloedd a gwasanaethau hamdden, sydd wedi dioddef mwy oherwydd cyni na'r un gwasanaeth arall.

**22.** Clywsom rai enghreifftiau cadarnhaol o sut yr oedd awdurdodau lleol yn parhau i drawsnewid gwasanaethau i liniaru effaith cyllidebau llai[10], gyda rhaglenni trawsnewid sy'n cynnwys modelau amgen ar gyfer darparu gwasanaethau a chynlluniau cynhyrchu incwm. Er y gallai hyn gael rhywfaint o effaith o ran sicrhau y gall awdurdodau barhau i ddarparu gwasanaethau, rydym yn cydnabod y bydd angen newidiadau mwy sylfaenol i'r ffordd y mae llywodraeth leol yn gweithredu er mwyn mynd i'r afael â chyni a'i gwneud yn fwy gwydn yn ariannol.

**23.** Rydym yn cydnabod y gwaith ehangach y mae Llywodraeth Cymru yn parhau i'w gynnal ar ddiwygio llywodraeth leol, gan gynnwys cynlluniau ar gyfer gweithio rhanbarthol gorfodol a diwygio'r system gyllid. Cydnabyddir mai nod y Llywodraeth yn hyn o beth yw gwneud awdurdodau lleol yn fwy gwydn a sicrhau cyllid cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau lleol. Rydym yn croesawu hynny.

**24.** Mae Llywodraethau olynol yng Nghymru wedi canolbwyntio ar ddiwygio llywodraeth leol, gyda'r cynigion diweddaraf yn cael ei cyflwyno gan Ysgrifennydd blaenorol y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol yn *Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad*. Rydym yn awyddus i'r cynigion hyn gael eu cwblhau'n derfynol. Ein gobaith yw y byddant yn rhoi mwy o sicrwydd i lywodraeth leol er mwyn eu galluogi i gynllunio gwasanaethau ar gyfer y dyfodol ac er mwyn cynorthwyo i fynd i'r afael â phwysau parhaus. Rydym hefyd yn disgwyl i Ysgrifennydd newydd y Cabinet fwrw ymlaen â'r cynigion hyn yn brydlon, gan ymgynghori â llywodraeth leol.

**25.** Er mai ar ddyraniad 2018-19 yr ydym wedi canolbwyntio ein hystyriaethau, nodwn fod y setliad llywodraeth leol dangosol ar gyfer 2019-20 yn dangos gostyngiad eto o

[9] Tystiolaeth Ysgrifenedig, ELGC(5)-30-17 Papur 1
[10] Tystiolaeth Ysgrifenedig, ELGC(5)-30-17 Papur 1

1.5 y cant. Mae hyn yn peri pryder i ni. Rydym yn cydnabod bod Ysgrifennydd blaenorol y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol wedi bod yn eithaf darbodus wrth osod cyllidebau dangosol ar gyfer 2019-20, o gofio cynlluniau Llywodraeth y DU i arbed £3.5 biliwn ychwanegol yn rhan o'r Adolygiad Effeithlonrwydd yn ystod y flwyddyn ariannol honno.[11]

**26.** Rydym yn sylwi bod cyllideb yr hydref ar gyfer y DU yn nodi, wrth drafod yr Adolygiad hwn, y bydd gwariant adrannol yn 2019-20 £2.1 biliwn yn uwch nag a ragwelwyd yng nghyllideb 2016 oherwydd cyfuniad o ailragamcanu, ailflaenoriaethu a'r angen i fuddsoddi mewn pwysau newydd.

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried ailedrych ar y gostyngiad ychwanegol arfaethedig o 1.5 y cant yn y setliad llywodraeth leol dangosol ar gyfer 2019-20 â'r bwriad o gynyddu i'r eithaf y refeniw sydd ar gael i awdurdodau. Gan hynny, rydym hefyd yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod cyn gynted ag y bo modd am unrhyw newidiadau tebygol i gyllid llywodraeth leol yn 2019-20 er mwyn cynorthwyo'r sector yn ei gynlluniau ariannol tymor canolig.

[11] Cofnod y Trafodion, paragraff 42, 15 Tachwedd 2017

# Materion penodol

## Gofal cymdeithasol ac addysg

**28.** O fewn y setliad llywodraeth leol, mae Llywodraeth Cymru wedi blaenoriaethu cyllid ar gyfer ysgolion a gofal cymdeithasol. Yn ei bapur tystiolaeth, eglurodd Ysgrifennydd blaenorol y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol fod £62 miliwn yn cael ei ddarparu trwy elfen ysgolion y setliad, ac y byddai hwnnw'n sicrhau bod cyfran dybiedig Llywodraeth Cymru o'r gwariant craidd ar ysgolion yn cael ei gynnal ar yr un lefel â 2017-18. Yn yr un modd, roedd £42 miliwn yn cael ei ddarparu ar gyfer gofal cymdeithasol.[12]

**29.** Wrth roi sylwadau ar yr uchod, dywedodd CLlLC ei bod yn peri rhywfaint o rwystredigaeth fod hwn yn cael ei ddisgrifio fel cyllid "ychwanegol", ac awgrymodd fod angen rhagor o eglurhad ynglŷn â sut y daethpwyd i'r ffigurau.[13]

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod cyllidebau yn y dyfodol yn fwy tryloyw ac eglur ynglŷn â sut y cyflwynir cyllid ychwanegol.

**30.** Ysgrifennodd Ysgrifennydd y Cabinet at y Pwyllgor cyn dod i'r cyfarfod, gan roi rhagor o fanylion am y trefniadau ar gyfer blaenoriaethu cyllid ar gyfer ysgolion a gofal cymdeithasol yn 2018-19 a 2019-20 a sut y cyfrifwyd y ffigurau uchod. Gellir gweld copi o'r llythyr hwn ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

**31.** Rydym yn cydnabod bod y dyraniad 'ychwanegol' yn rhan o'r cyllid craidd ar gyfer awdurdodau lleol drwy'r grant cynnal refeniw ac nad yw felly wedi'i neilltuo. Haerodd CLlLC y byddai'n gwneud pob ymdrech i geisio cynyddu i'r eithaf y gyfran o'r arian hwnnw sy'n mynd tuag at addysg a gwasanaethau cymdeithasol.[14] Nododd fod y rhain hefyd yn flaenoriaethau i awdurdodau lleol ac y byddai'n anodd lleihau cyllid yn y meysydd hynny, o ystyried pwysau'r galw ym maes gwasanaethau cymdeithasol a'r awydd i wella canlyniadau mewn addysg.[15] Fodd bynnag, ailadroddodd y bu gostyngiad yn y dyraniad cyffredinol ar gyfer llywodraeth leol, er gwaethaf y cyllid 'ychwanegol'.[16] Amlygodd hefyd y byddai blaenoriaethu cyllid ar gyfer addysg a gofal cymdeithasol yn effeithio ar y cyllid sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau eraill, nad ydynt wedi'u diogelu.[17]

---

[12] Tystiolaeth Ysgrifenedig, ELGC(5)-32-17 Papur 1
[13] Cofnod y Trafodion, para 47, 25 Hydref 2017
[14] Cofnod y Trafodion, para 44, 25 Hydref 2017
[15] Cofnod y Trafodion, para 47, 25 Hydref 2017
[16] Cofnod y Trafodion, para 44, 25 Hydref 2017
[17] Cofnod y Trafodion, para 44, 25 Hydref 2017

**32.** Rydym yn cydnabod pa mor hanfodol bwysig yw addysg a gofal cymdeithasol. Yng nghyd-destun y gostyngiad cyffredinol yn y dyraniad ar gyfer llywodraeth leol, rydym hefyd yn deall y pryderon ynghylch yr effaith a geir ar ddarpariaeth gwasanaethau nad ydynt yn cael eu diogelu - gwasanaethau sydd eisoes yn dirywio yn ôl yr hyn a glywsom - yn sgil blaenoriaethu cyllid ar gyfer y gwasanaethau hyn. Yn y pen draw, mae rhaglen cyni Llywodraeth y DU a'r cyllid y mae'n ei roi i Lywodraeth Cymru sydd, yn ei thro, yn ariannu awdurdodau lleol yng Nghymru, yn arwain at gyfyng-gyngor o'r fath.

**33.** Ar bwynt ehangach, rydym yn cydnabod mai'r drefn o ariannu gofal cymdeithasol yn y dyfodol heb os yw un o'r heriau mwyaf, a mwyaf hirdymor sy'n wynebu llywodraeth ganolog a llywodraeth leol yng Nghymru. O gofio bod costau gofal cymdeithasol yn cynyddu, a'r rhagolygon yn dangos y bydd pwysau'r galw yn codi dros y degawd nesaf a thu hwnt, mae trefn ariannu gofal cymdeithasol yn y dyfodol yn her na ellir ei hanwybyddu na'i chuddio.

**34.** I'r perwyl hwn, rydym yn croesawu bwriad Llywodraeth Cymru i archwilio ysgogiadau posibl, gan gynnwys trethi, i gefnogi darpariaeth gofal cymdeithasol, fel y nodir yn ei *Adroddiad ar Bolisi Trethi Cymru*. Rydym yn ymwybodol o'r cynigion a gyflwynwyd gan yr Athro Holtham ar gyflwyno ardoll gofal cymdeithasol, a bod trafodaethau wedi'u cynnal rhwng yr Athro Holtham ac Aelodau perthnasol o'r Cabinet ar y mater hwn.[18] Credwn y dylai unrhyw gynigion ar gyfer ardoll neu dreth gofal cymdeithasol sicrhau cydbwysedd priodol rhwng yr angen i fod yn deg a rhesymol, a'r angen i amddiffyn y rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau y mae eu lles yn dibynnu ar ddarpariaeth gofal cymdeithasol ddigonol, fforddiadwy.

## Cronfeydd wrth gefn

**35.** Yng nghyd-destun y gostyngiad yn y cyllid a ddyrannwyd i lywodraeth leol ac effaith hyn ar ddarpariaeth gwasanaethau lleol, gwnaethom holi tystion ynglŷn â lefel cronfeydd wrth gefn yr awdurdodau lleol gan ofyn a oedd y lefel bresennol yn briodol.

**36.** Wrth geisio egluro'r gwahaniaethau yn lefelau'r cronfeydd wrth gefn sydd gan yr amryw awdurdodau lleol, dywedodd CLlLC nad oes un dull gweithredu sy'n addas i bawb a bod Llywodraeth Cymru, dros amser, wedi cydnabod hynny.[19]

**37.** Dywedodd CLlLC fod rhai awdurdodau yn ystyried ffyrdd o fuddsoddi cronfeydd wrth gefn er mwyn gwella canlyniadau cymdeithasol, neu pan fo modd buddsoddi

[18] Cofnod y Trafodion, paragraff 85, 15 Tachwedd 2017
[19] Cofnod y Trafodion, para 90, 25 Hydref 2017

i arbed trwy gyfrwng gwariant untro. Pwysleisiodd nad oedd y cronfeydd wrth gefn yn ateb rhwydd a fyddai'n gwneud iawn am gyni.[20]

**38.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod agwedd Llywodraeth Cymru tuag at gronfeydd wrth gefn yn seiliedig ar y ffaith fod gan Gymru 22 awdurdod lleol â'u hatebolrwydd democrataidd eu hunain a'u prosesau craffu eu hunain. Datganodd yn eglur hefyd nad yw'r llywodraeth erioed wedi dweud y dylid defnyddio'r cronfeydd wrth gefn at ddibenion refeniw i lenwi bylchau o ran cyllid.[21]

**39.** Rydym yn nodi bod y data blynyddol ar y cronfeydd wrth gefn sydd gan awdurdodau lleol ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. Pan ddaeth Ysgrifennydd y Cabinet gerbron y Pwyllgor, nid oedd y data diweddaraf wedi'u cyhoeddi, ond maent bellach ar gael. Fodd bynnag, eglurodd swyddog Ysgrifennydd y Cabinet fod lefel y cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd yn amrywio rhwng 4 y cant a 22 y cant o wariant blynyddol yr awdurdodau, a chronfeydd wrth gefn heb eu dyrannu yn amrywio rhwng 1.8 y cant a 5.7 y cant. Eglurodd hefyd fod y cronfeydd wrth gefn a ddelir wedi lleihau rhyw fymryn dros y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf, yn dilyn nifer o flynyddoedd pan welwyd cynnydd yn y cronfeydd wrth gefn yn gyffredinol.[22]

**40.** Rydym yn cydnabod bod lefelau priodol o gronfeydd wrth gefn yn rhan bwysig o reolaeth ariannol ddarbodus. Rydym hefyd yn cydnabod mai mater i awdurdodau lleol yw penderfyniadau ynglŷn â chronfeydd wrth gefn, gan ystyried eu hamgylchiadau eu hunain. Er gwaethaf hyn, credwn ei bod yn bwysig sicrhau bod trefniadau cadarn ar waith er mwyn gallu herio a chraffu'n briodol ar y penderfyniadau hynny, yn fewnol ac yn allanol.

**41.** Rydym yn ymwybodol o ganllawiau Llywodraeth Cymru ar gronfeydd wrth gefn, *Canllawiau i Aelodau Etholedig Lleol: Craffu ar y Ffordd y mae Awdurdodau Lleol yn Dal ac yn Defnyddio Cronfeydd Wrth Gefn*. Cyhoeddwyd y canllawiau hyn ar ddechrau 2016 yn dilyn pryder ynghylch y diffyg cyfle a gynigir i gynghorwyr graffu ar lefel cronfeydd wrth gefn yr awdurdod.

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro a yw wedi cynnal adolygiad o'r modd y gweithredwyd y canllawiau hyn ar gronfeydd wrth gefn llywodraeth leol, ac yn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor ar ganlyniad unrhyw adolygiad o'r fath. Os na chynhaliwyd adolygiad, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried gwneud hynny.

[20] Cofnod y Trafodion, para 59, 25 Hydref 2017
[21] Cofnod y Trafodion, paragraff 22, 15 Tachwedd 2017
[22] Cofnod y Trafodion, paragraff 26-27, 15 Tachwedd 2017

## Grantiau penodol

**42.** Mae cyfanswm o £91.7 miliwn o grantiau penodol wedi'i ymgorffori yn y grant cynnal refeniw ar gyfer 2018-19. Mae hyn yn cynnwys £35 miliwn sy'n gysylltiedig ag elfen wastraff y Grant Refeniw Sengl, a fydd, yn ôl Llywodraeth Cymru, yn cael ei ddefnyddio i gyflawni targedau ailgylchu.

**43.** Wrth amlinellu'r rhesymeg dros drosglwyddo grantiau penodol i'r grant cynnal refeniw, esboniodd Ysgrifennydd blaenorol y Cabinet ei fod:

> "yn rhoi mwy o reolaeth i awdurdodau lleol dros gyfran fwy o'u gwariant yn y cynlluniau gwariant. Yn ei dro, mae hyn yn rhoi cyfle i arbed costau gweinyddol a chyfle i awdurdodau lleol geisio barn eu cymunedau am y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt hwy."[23]

**44.** Croesawodd cynrychiolwyr llywodraeth leol y trosglwyddiad ar gyfer 2018-19. Fodd bynnag, roeddent hefyd yn dweud na fyddai gan awdurdodau lawer o hyblygrwydd i ddyrannu'r cyllid a drosglwyddwyd i feysydd gwario eraill, o ystyried y ffigurau dan sylw a'r angen i gyflawni targedau ailgylchu statudol.[24]

**45.** Dywedodd CLlLC mai'r fantais enfawr wrth drosglwyddo grantiau penodol oedd yr arian y gellid ei arbed mewn costau gweinyddol.[25] Aeth ymlaen i nodi bod gwerth £600 miliwn o arian grant yn dal i fod y tu allan i'r grant cynnal refeniw, a bod y ffigur hwn yn debygol o godi i tua £800 i £850 miliwn wrth i ragor o grantiau gael eu cyhoeddi.[26]

**46.** Rydym yn croesawu'r ffaith fod £91.7 miliwn o grantiau penodol wedi'u trosglwyddo i'r grant cynnal refeniw ar gyfer 2018-19, ond nodwn fod y manteision i awdurdodau lleol, yn yr achos hwn, yn debygol o fod yn fach iawn. Er bod swm y grantiau penodol a drosglwyddwyd wedi cynyddu ers 2017-18, rydym yn nodi bod lefel sylweddol o gyllid ar gyfer llywodraeth leol yn cael ei ddarparu o hyd ar ffurf grantiau penodol. Yn ôl adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, *Rheoli Grantiau yng Nghymru*, mae cost gweinyddu grantiau yn dod i 10 y cant o'r arian o leiaf. Ar y sail hon, gellid arbed arian sylweddol trwy ymgorffori'r grantiau penodol sy'n weddill i'r grant cynnal refeniw. Rydym wedi ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet yn gofyn pa ystyriaeth a roddwyd i drosglwyddo grantiau eraill i'r grant cynnal refeniw ar gyfer 2018-19. Mae copi o'n llythyr ac ymateb Ysgrifennydd y Cabinet i'w gweld ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

---

[23] Tystiolaeth Ysgrifenedig, ELGC(5)-32-17 Papur 1
[24] Cofnod y Trafodion, para 130-131, 25 Hydref 2017
[25] Cofnod y Trafodion, para 156, 25 Hydref 2017
[26] Cofnod y Trafodion, para 135, 25 Hydref 2017

**47.** Pan ddaeth gerbron y Pwyllgor, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet yn eglur ei fod yn bwriadu parhau i weithio tuag at leihau nifer y grantiau penodol a gyflwynir trwy'r setliad llywodraeth leol.[27] Rydym yn croesawu hyn.

**48.** Credwn ei bod yn hanfodol sicrhau bod y canlyniadau y cytunwyd arnynt, ac yr arferid eu cyflawni trwy gyllid grant, yn cael eu cynnal ar ôl ymgorffori'r grantiau hynny i'r grant cynnal refeniw.

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro sut y mae'n bwriadu monitro gwariant a chanlyniadau mewn meysydd a arferai dderbyn grantiau, ar ôl ymgorffori'r grantiau hynny i'r grant cynnal refeniw.

[27] Cofnod y Trafodion, paragraff 16, 15 Tachwedd 2017

# Y prif grŵp gwariant cymunedau a phlant

**49.** O gofio'r newidiadau i bortffolios aelodau'r Cabinet fel y'u nodwyd ym mharagraff 7, rhagwelwn y bydd y MEG hwn yn cael ei ailddatgan cyn dadl y gyllideb ddrafft.

## Y grant newydd ar gyfer ymyrraeth gynnar, atal problemau a chefnogaeth

**50.** O 2019-20, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu creu un grant sy'n dwyn ynghyd yr holl grantiau a delir i awdurdodau lleol i gefnogi ymyrraeth gynnar, gwaith ataliol a chefnogaeth. Gallai hyn gynnwys:

- Cefnogi Pobl;
- Grant Refeniw Dechrau'n Deg;
- Teuluoedd yn Gyntaf;
- Cyllid etifeddol Cymunedau yn Gyntaf;
- Grant Cyflogadwyedd;
- Hyrwyddo Ymgysylltiad Cadarnhaol Ymhlith Pobl Ifanc (cyfiawnder ieuenctid);
- Gofal plant y tu allan i oriau ysgol;
- Grant Gwasanaethau i Ddelio â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol;
- Atal digartrefedd;
- Gorfodi cynllun Rhentu Doeth Cymru;
- Grant Cydlyniant Cymunedol;
- Cronfa Dydd Gŵyl Dewi, a'r
- Gwasanaeth Eirioli Cenedlaethol.

**51.** Mae naratif y gyllideb yn awgrymu y gellid, trwy gyflwyno grant sengl, mwy, 'gael gwared â'r cyfyngiadau sy'n dod yn sgil grantiau unigol llai', a 'defnyddio'r cyllid i gyflawni anghenion y penderfynwyd arnynt yn lleol mewn ffordd sy'n gwneud synnwyr ar lefel leol'. Mae'n mynd ymlaen i ddweud y gellid 'helpu i sicrhau'r arbedion effeithlonrwydd o £13.4m sydd eu hangen' trwy symleiddio'r broses weinyddu.[28]

[28] Llywodraeth Cymru, Cynigion manwl cyllideb ddrafft 2018-19, t22, paragraff 4.28

**52.** Dywedodd Cymorth Cymru eu bod yn bryderus dros ben na ellir dal Llywodraeth Cymru i gyfrif bellach am y swm y mae'n ei wario ar y rhaglen Cefnogi Pobl o ganlyniad i gael gwared ar y llinell benodol, ar wahân yn y gyllideb. Gan fod toriad o £13 miliwn i'r llinell hon yn 2019-20, dywedodd Cymorth nad yw'n eglur felly pa wasanaethau o fewn y llinell gyllideb gyfun hon fydd yn cael eu torri.[29]

**53.** Gofynnodd y Pwyllgor i Arweinydd y Tŷ ynglŷn â'r cynigion i gyfuno grantiau, ac i dorri £13 miliwn oddi ar y llinell gyllideb gyfun yn 2019-20. Dywedodd wrthym mai rhagdybiaeth weithredol Llywodraeth Cymru, yn dilyn Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, *Rheoli Grantiau yng Nghymru*, oedd ei bod yn disgwyl gallu arbed 10 y cant trwy leihau costau gweinyddol, heb wneud toriadau i wasanaethau.[30]

**54.** Adleisiodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus hyn drwy ddweud "reducing hypothecation, through reducing ring fencing, we can provide more flexibility, and therefore ensure that that grant reaches the people on the front line, where it's required, rather than actually becoming bound up in administration."[31]

**55.** Dywedodd y Gweinidog Tai ac Adfywio wrthym fod saith awdurdod lleol yn braenaru'r tir yn 2018-19 i dreialu'r gyllideb gyfun, a bod y 15 awdurdod lleol sy'n weddill wedi cael 15 y cant o hyblygrwydd o ran symud arian i mewn ac allan o'r cyllid Cefnogi Pobl, ond hefyd Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, cronfa etifeddol Cymunedau yn Gyntaf a'r grant cyflogadwyedd.[32] Yn dilyn y treialon eleni, byddai Llywodraeth Cymru yn penderfynu'n derfynol a yw am symud i grant sengl, mwy yn barhaol ai peidio.[33]

**56.** Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 20 Tachwedd 2017,[34] ailddatganodd Cymorth Cymru eu pryderon:

- na fyddai gan Lywodraeth Cymru ddigon o amser i werthuso llwyddiant y grant sengl yn dilyn treialon 2018-19 a chyn ei gyflwyno'n llawn, o bosibl, i bob awdurdod lleol ym 2019-20;
- y byddai'r grant sengl yn uno grantiau tai a grantiau nad ydynt yn ymwneud â thai gyda'i gilydd, gan olygu mai blaenoriaethau gwleidyddol yn cystadlu

[29] Cymorth Cymru, Datganiad i'r wasg: Cymorth Cymru responds to detailed Welsh budget and disappearance of Supporting People budget line in 2019/20, 24 Hydref 2017
[30] Cofnod y Trafodion, paragraff 200, 15 Tachwedd 2017
[31] Cofnod y Trafodion, paragraff 202, 15 Tachwedd 2017
[32] Cofnod y Trafodion, paragraff 208, 15 Tachwedd 2017
[33] Cofnod y Trafodion, paragraff 215, 15 Tachwedd 2017
[34] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 20 Tachwedd 2017

â'i gilydd mewn awdurdodau lleol fyddai'n pennu dyraniadau, yn hytrach na gwir angen;

- y byddai'n amhosibl diogelu arian Cefnogi Pobl (yn unol â'r cytundeb â Phlaid Cymru ynglŷn â'r gyllideb) os yw'n rhan o grant cyfun, ac
- nad yw'r sail dystiolaeth a'r rhesymeg dros y newid wedi'i egluro.

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn:

- ymrwymo i ailfuddsoddi'r arbedion effeithlonrwydd arfaethedig o £13 miliwn yn ôl yn y Grant Ymyrraeth Gynnar, Atal Problemau a Chefnogaeth;
- cymryd camau i sicrhau na fydd unrhyw arbedion effeithlonrwydd a wneir o 2019-20 ymlaen yn arwain at ostyngiad yn lefel y gwasanaethau;
- amlinellu'r sail dystiolaeth a'r rhesymeg dros y penderfyniad;
- nodi pa drefniadau sydd ar waith i fonitro canlyniadau, er mwyn sicrhau nad yw dadneilltuo yn achosi i bobl sy'n agored i niwed lithro i'r bylchau yn y gwasanaethau;
- sicrhau y clustnodir, mewn rhyw ffordd, y cyllid ar gyfer gwasanaethau tai a gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â thai a ariennir trwy'r Grant; a
- sicrhau bod y Gronfa newydd yn dryloyw trwy ymrwymo i gasglu a chyhoeddi manylion yr union wasanaethau, yn enwedig gwasanaethau a fydd yn mynd i'r afael â digartrefeddd, a gaiff eu hariannu ym mhob awdurdod lleol sy'n cymryd rhan yn y cyfnod treialu yn 2018-19.

## Cydraddoldeb

**57.** Rydym yn siomedig nad yw Llywodraeth Cymru ond wedi cynnal Asesiad Effaith Integredig Strategol ar y cynigion cyllideb amlinellol, yn hytrach na'r cynigion manwl, ac mai dim ond deg tudalen o hyd yw'r dadansoddiad o'r gyllideb gyfan.[35] Nid ydym yn credu bod y dadansoddiad hwn yn ddigon manwl i ddeall yn llawn effaith dyraniadau'r gyllideb ar wahanol grwpiau o bobl, ac i sicrhau nad yw penderfyniadau ynghylch y gyllideb yn effeithio ar bobl yn anghymesur neu'n annheg.

**58.** Er enghraifft, mae'n amhosibl deall o'r Asesiad beth fydd effaith y toriadau i gynlluniau dysgu seiliedig ar waith ar wahanol grwpiau o bobl, neu a yw'r arian ychwanegol ar gyfer digartrefedd wedi'i dargedu i leihau anghydraddoldeb.

[35] Llywodraeth Cymru, Naratif y gyllideb ddrafft amlinellol ar gyfer 2018-19, tudalen 63 i 73

**59.** Credwn fod hwn yn gam yn ôl o'i gymharu â 2014-15 pan oedd yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn llawer mwy cynhwysfawr (120 tudalen o hyd), yn dilyn argymhellion Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol y Pedwerydd Cynulliad, ac ymchwiliad gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Mae Llywodraeth yr Alban yn paratoi datganiad cydraddoldeb 70 tudalen (ar gyfartaledd) ochr yn ochr â'i chynigion ar gyfer y gyllideb ddrafft bob blwyddyn, i ddangos sut y mae blaenoriaethau cydraddoldeb wedi cynorthwyo i lunio'r gyllideb.

**60.** Y gyllideb yw offeryn economaidd pwysicaf llywodraeth. Dylai asesiad effeithiol o'r effaith ar gydraddoldeb sicrhau nad yw penderfyniadau'r gyllideb yn cael effaith anghymesur o negyddol ar neb oherwydd nodweddion gwarchodedig (megis rhyw, hil, anabledd ac ati) neu statws economaidd-gymdeithasol.

**61.** Dywed Asesiad Effaith Integredig Strategol Llywodraeth Cymru fod "prosiect ar waith ar hyn o bryd i ddarparu fframwaith newydd ar gyfer asesiadau effaith yn Llywodraeth Cymru yn 2018".[36]

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ailddechrau cynnal asesiadau effaith manwl o'i chyllideb ddrafft yn y dyfodol, yn unol ag argymhellion y pwyllgor a'n rhagflaenodd, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac arfer da rhyngwladol.

## Tlodi a chyflogadwyedd

**62.** Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ken Skates, sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros gynyddu ffyniant economaidd a lleihau tlodi. Mae'r cyfrifoldebau am gyllidebau pwysig eraill sy'n cyfrannu at leihau tlodi wedi newid yn sylweddol ers y gyllideb ddiwethaf:

- Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes, Eluned Morgan, sy'n gyfrifol am gyflogadwyedd bellach;
- Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, Alun Davies, wrth y Pwyllgor ei fod yn gyfrifol am arian etifeddol Cymunedau yn Gyntaf, yn ogystal ag amrywiaeth o raglenni cyflogadwyedd megis Cymunedau am Waith, Cymunedau am Waith a Mwy, Esgyn, a Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth;[37]

[36] Llywodraeth Cymru, Naratif y gyllideb ddrafft amlinellol ar gyfer 2018-19, tudalen 73, paragraff 80
[37] Cofnod y Trafodion, para 150 a 152, 15 Tachwedd 2017

- Bellach mae'r Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant, Huw Irranca-Davies, yn gyfrifol am raglenni lleihau tlodi ymhlith plant megis Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf;
- Cyfrifoldeb y Gweinidog Tai ac Adfywio, Rebecca Evans, yw materion sy'n ymwneud â digartrefedd, cymorth sy'n gysylltiedig â thai, ac adfywio.

**Argymhelliad 7.** O gofio bod gwahanol adrannau'n gyfrifol am y cyllid ar gyfer rhaglenni lleihau tlodi, a'r ffaith fod cyfrifoldebau Ysgrifenyddion a Gweinidogion wedi newid yn ddiweddar ar draws y llywodraeth, rydym yn annog Llywodraeth Cymru i ailystyried yr angen am strategaeth lleihau tlodi ar draws y llywodraeth, yn unol â'r argymhelliad yn ein hadroddiad diweddar, *Cymunedau yn Gyntaf: yr hyn a ddysgwyd*.

**63.** Byddai hyn o gymorth i sicrhau bod cyfrifoldebau'n eglur, a bod holl Ysgrifenyddion a Gweinidogion y Cabinet yn gweithio tuag at yr un amcanion, hyd yn oed os bydd portffolios a strwythurau'r gyllideb yn newid.

**64.** Nododd Arweinydd y Tŷ hefyd y byddai Llywodraeth Cymru yn archwilio sut y gall gefnogi merched sy'n profi 'tlodi misglwyf'.[38]

**Argymhelliad 8.** Hoffem gael rhagor o wybodaeth am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â thlodi misglwyf, a faint o arian sydd wedi'i ddyrannu.

[38] Cofnod y Trafodion, paragraff 158, 15 Tachwedd 2017

## Cymunedau yn Gyntaf

**65.** Dywedodd Arweinydd y Tŷ, Julie James AC wrth y Pwyllgor mai ar bobl ifanc a phobl ag anableddau y mae'r penderfyniad i ddod â'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf i ben yn fwyaf tebygol o gael effaith:

> "the information suggests that the protected characteristics of age—so, young people—and those with disabilities, in respect of mental health in particular, are projected to be impacted the greatest, because a number of projects inside Communities First obviously focused on those areas".[39]

**66.** Nododd y bydd Cynllun Cyflogadwyedd arfaethedig Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau nad oes unrhyw fylchau mewn gwasanaethau cyflogadwyedd i bobl ifanc ac anabl oherwydd i Gymunedau yn Gyntaf ddod i ben.

**67.** Dyma enghraifft dda o sut y gellir defnyddio asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb i sicrhau nad yw pobl yn cael eu rhoi dan anfantais annheg, hyd yn oed yn anfwriadol, gan benderfyniadau a wneir gan y llywodraeth. Rydym yn dal i bryderu y gall awdurdodau lleol ei chael yn anodd cynllunio a dosbarthu Cyllid Etifeddol Cymunedau yn Gyntaf cyn i'r Cynllun Cyflogadwyedd gael ei gyhoeddi, gan na fyddant yn gwybod beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn amlinellu sut y bydd yn sicrhau bod Cyllid Etifeddol Cymunedau yn Gyntaf a'r Cynllun Cyflogadwyedd arfaethedig yn diwallu anghenion pobl ifanc ac anabl sy'n debygol o deimlo effaith anghymesur oherwydd bod Cymunedau yn Gyntaf yn dirwyn i ben.

## Y gronfa cymorth dewisol

**68.** Dywedodd y Gweinidog Tai ac Adfywio wrthym mai'r gyllideb fwy ar gyfer y gronfa cymorth dewisol yw £8.7 miliwn ar gyfer 2018-19.[40] Rydym yn croesawu'r £1 miliwn o gyllid ychwanegol i gynorthwyo i liniaru effeithiau negyddol cyflwyno'r Credyd Cyffredinol.

**69.** Yn y gorffennol, nid yw'r gronfa cymorth dewisol wedi cael ei defnyddio'n ddigonol ers ei sefydlu yn 2013. Dywedodd y Gweinidog Tai ac Adfywio wrthym nad yw'r gronfa wedi cael ei defnyddio'n llawn am eleni, ond y byddai'r Llywodraeth yn disgwyl iddi gael ei defnyddio yn ystod y flwyddyn.[41]

---

[39] Cofnod y Trafodion, paragraff 140, 15 Tachwedd 2017
[40] Cofnod y Trafodion, paragraff 165, 15 Tachwedd 2017
[41] Cofnod y Trafodion, paragraff 166, 15 Tachwedd 2017

**70.** Canfu'r pwyllgor a'n rhagflaenodd a gwerthusiad gan Lywodraeth Cymru yn 2015 nad oedd y defnydd annigonol o'r gronfa yn deillio o ddiffyg angen, ond yn hytrach o ddiffyg ymwybyddiaeth a phroblemau o ran y broses ymgeisio.

**Argymhelliad 10.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro pa gamau y mae wedi eu cymryd i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r gronfa cymorth dewisol ac i'w gwneud yn haws manteisio arni, er mwyn sicrhau bod y gronfa fwy yn cyrraedd y bobl hynny sydd ei hangen fwyaf.

**71.** Roedd adroddiad y Pwyllgor ar ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru yn cynnwys argymhelliad y dylai'r gronfa cymorth dewisol ddarparu grantiau bach i geiswyr lloches sydd mewn perygl o amddifadedd. Ymatebodd Llywodraeth Cymru trwy ddweud "Yn sgil profiadau rhannau eraill o'r DU, byddwn yn ystyried a fyddai cronfa grantiau fechan i geiswyr lloches a'r rheini sydd heb y gallu i gael gafael ar gyllid cyhoeddus yn ddichonadwy neu'n ddymunol".[42]

**Argymhelliad 11.** Hoffem i Lywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'i hystyriaeth o'r argymhelliad hwn.

## Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

**72.** Pasiwyd y *Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru)* yn 2015. Yn ein gwaith craffu ôl-ddeddfu ar y Ddeddf y llynedd, codwyd pryderon bod gweithrediad y Ddeddf wedi bod yn araf mewn rhai meysydd.[43]

**73.** Dywedodd Arweinydd y Tŷ wrthym fod £500,000 ychwanegol wedi cael ei ddyrannu yn 2018-19 i gryfhau'r trefniadau sy'n dod i'r amlwg i weithio ar lefel ranbarthol.[44]

**Argymhelliad 12.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth am yr hyn y bydd yr arian ychwanegol yn cael ei wario arno a sut y bydd yn cryfhau'r trefniadau gweithio ar lefel ranbarthol.

## Digartrefedd

**74.** Cychwynnwyd Rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ym mis Ebrill 2015 a chafodd deddfwriaeth digartrefedd ei diwygio'n helaeth. Roedd y newidiadau yn cynnwys dyletswydd newydd i gynorthwyo i atal digartrefedd. Craffodd y Pwyllgor ar

[42] Llywodraeth Cymru, Ymateb i ymchwiliad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 'Roeddwn i'n arfer bod yn rhywun', 25 Mai 2017
[43] Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, A yw Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn gweithio? Rhagfyr 2016
[44] Cofnod y Trafodion, paragraff 193, 15 Tachwedd 2017

ddyraniadau cyllideb sy'n effeithio ar atal digartrefedd yn y grant cynnal refeniw ac o fewn y MEG Cymunedau a Phlant.

**75.** Eglurodd swyddog o Lywodraeth Cymru y gall awdurdodau lleol ddewis sut y maent yn gwario'r dyraniad o fewn y grant cynnal refeniw, gan nad yw'n cael ei neilltuo, ond bod Cyfarwyddiaeth Dai Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn cydweithredu'n agos wrth benderfynu sut y bydd yn cael ei ddefnyddio.[45]

**76.** Cyfeiriodd Cyfarwyddwr Tai ac Adfywio Llywodraeth Cymru at yr adnoddau ychwanegol a oedd wedi cael eu darparu i gynorthwyo awdurdodau lleol i weithredu eu dyletswyddau newydd o dan Ddeddf 2014, a bod yr arian hwn wedi'i gynyddu o'i gymharu â'r amcangyfrifon cychwynnol o angen a wnaed pan ddaeth y ddeddfwriaeth gerbron y Cynulliad.[46]

**77.** Rydym yn croesawu'r dyraniad ychwanegol o £10 miliwn ar gyfer digartrefedd, ac rydym yn nodi y bydd £6 miliwn ohono ar gael trwy'r grant cynnal refeniw. Rydym wedi ein sicrhau ei bod yn debygol y bydd yr adnodd ychwanegol hwn, nad yw wedi ei neilltuo, yn cael ei ddefnyddio i atal a mynd i'r afael â digartrefedd.

**Argymhelliad 13.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod yr arian hwn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer atal digartrefedd. Yn ogystal, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro a yw'n bwriadu monitro gwariant a chanlyniadau yn hyn o beth, yn enwedig o ystyried y cynnig i gyfuno cyllid ar gyfer Atal Digartrefedd â'r grant newydd ar gyfer Ymyrraeth Gynnar, Atal Problemau a Chefnogaeth, ac os felly, sut.

## Y cyflenwad tai

**78.** Mae targed Llywodraeth Cymru o ddarparu 20,000 o dai fforddiadwy ychwanegol erbyn diwedd y Pumed Cynulliad yn cael ei gefnogi gan nifer o ddyraniadau cyllideb, a chan gytundebau cyflenwad tai gyda'r sectorau cymdeithasol a phreifat.

**79.** Mae'r targed cyffredinol yn cynnwys 6,000 o gartrefi o dan y cynllun Cymorth i Brynu. Yn ogystal â chynorthwyo pobl i ddod yn berchen ar gartref, mae Cymorth i Brynu hefyd yn cefnogi'r diwydiant adeiladu. Clywsom fod llawer o fusnesau bach a chanolig eu maint yn rhan o'r cynllun hwnnw: 137 o 152 o ddatblygwyr. Fodd bynnag, nodwn fod y Gweinidog Tai ac Adfywio wedi datgan bod mwyafrif helaeth y cartrefi hynny yn cael eu hadeiladu mewn gwirionedd gan fentrau mwy.[47] Mae busnesau bach a chanolig hefyd yn cael cymorth gan gronfa datblygu eiddo

[45] Cofnod y Trafodion, paragraff 94, 15 Tachwedd 2017
[46] Cofnod y Trafodion, paragraff 223, 15 Tachwedd 2017
[47] Cofnod y Trafodion, paragraff 230, 15 Tachwedd 2017

Llywodraeth Cymru a dywedodd Arweinydd y Tŷ wrthym fod busnesau bach a chanolig hefyd wedi bod yn rhan o'r Rhaglen Tai Arloesol.[48]

**80.** Yn ogystal â Chymorth i Brynu, nodwn yr arian cyfalaf ychwanegol a ddyrannwyd i'r rhaglen Grant Tai Cymdeithasol, yn ogystal â'r ffaith y datblygwyd cynlluniau perchnogaeth tai eraill, gan gynnwys model rhentu i brynu.

**81.** Rydym yn awyddus i weld adnoddau cyfyngedig yn cael eu targedu yn y modd mwyaf effeithiol. Mae hyn yn cynnwys darparu'r cymorth mwyaf posibl i fusnesau bach a chanolig a sicrhau bod ardaloedd sydd â'r angen mwyaf difrifol am dai fforddiadwy newydd, gan gynnwys ardaloedd gwledig, yn gweld effaith yr arian hwn.

## Safonau tai

**82.** Y targed ar gyfer cyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru yw 2020. Ceir dyraniad o £108 miliwn yn y gyllideb i gyflawni a chynnal y safon hon. Rydym yn croesawu'r sicrwydd a roddwyd gan y Gweinidog Tai ac Adfywio y byddid yn cadw at y dyddiad hwnnw.

**83.** Arweiniodd Rhan 1 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 at sefydlu Rhentu Doeth Cymru, sy'n rheoli'r cynllun cofrestru a thrwyddedu cenedlaethol ar gyfer y sector rhentu preifat. Clywsom gan y Cyfarwyddwr Tai ac Adfywio fod y llinell gyllideb a gyhoeddwyd yn ymwneud â gweithgarwch cyfathrebu.[49]

**84.** Rydym yn croesawu'r data a fydd ar gael ar gyflwr y stoc dai ym mhob math o ddeiliadaeth, gan ddarparu gwybodaeth gyfredol am y sector. Mae hyn yn arbennig o ddefnyddiol o safbwynt y sector preifat (tai rhent a rhai sy'n eiddo i berchen-feddianwyr) lle mae diffyg data diweddar.

**Argymhelliad 14.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn eglur sut y bydd y data newydd ar gyflwr y stoc tai yn cael eu defnyddio i lywio penderfyniadau ariannu yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu'n effeithiol.

## Byw'n annibynnol a chyfranogiad tenantiaid

**85.** Cynhaliwyd nifer o ymchwiliadau ac adolygiadau mewn blynyddoedd diweddar i ba mor effeithiol yw'r system addasiadau cartref. Mae hyn yn cynnwys ymchwiliadau gan bwyllgorau yn y Trydydd a'r Pedwerydd Cynulliad, yn ogystal ag adolygiadau a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru. Amlygwyd pryderon trwy'r

[48] Cofnod y Trafodion, paragraff 231, 15 Tachwedd 2017
[49] Cofnod y Trafodion, paragraff 278, 15 Tachwedd 2017

adolygiadau ac ymchwiliadau i gyd, gan gynnwys oedi cyn cwblhau addasiadau, gwaith cyfyngedig i fonitro perfformiad, ac amrywiadau yn ansawdd y gwasanaethau addasu rhwng gwahanol ardaloedd daearyddol. Ar ôl cyhoeddi'r adolygiad diweddaraf ym mis Ionawr 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fframwaith newydd ar gyfer darparu addasiadau cartref, ac fe'i cyflwynwyd yn ystod 2016-17.

**86.** Dywedodd y Gweinidog Tai ac Adfywio wrthym fod data ar addasiadau, o dan y fframwaith newydd a elwir yn Hwyluso, bellach yn cael eu casglu gan bob darparwr. Mae hyn yn golygu na fydd data yn y dyfodol yn cael eu cyfyngu i Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl.[50] Rydym yn nodi datganiad Cyfarwyddwr Tai ac Adfywio Llywodraeth Cymru ei bod yn dal yn rhy gynnar i benderfynu a yw'r fframwaith newydd yn rhoi gwerth am arian, ond ei fod yn dechrau cynnig arwyddion cadarnhaol.[51]

**Argymhelliad 15.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn egluro pryd y bydd data monitro'r fframwaith Hwyluso ar gael, ac yn cyflwyno adroddiad inni ar y data cyn gynted ag y bo modd.

**87.** O ran cyfranogiad tenantiaid, rydym yn parhau i fonitro penderfyniad Llywodraeth Cymru i ariannu un sefydliad tenantiaid. Rydym yn cefnogi ymdrechion gan Lywodraeth Cymru a landlordiaid i ymgysylltu â chynifer o denantiaid ag y bo modd mewn amryw o ffyrdd, gan gynnwys tenantiaid yn y sector rhentu preifat.

**88.** Dywedodd y Gweinidog Tai ac Adfywio wrthym fod y penderfyniad ariannu wedi'i wneud oherwydd rhai pryderon ynghylch perthynas gystadleuol rhwng y ddau sefydliad a oedd yn arfer derbyn cyllid.

**89.** At hynny, dywedodd y Gweinidog wrthym fod rhywfaint o ddyblygu gwaith wedi bod. Rydym yn nodi y bydd y meini prawf a amlinellir yn y cynnig grant i TPAS Cymru yn cael eu defnyddio i asesu pa mor effeithiol yw'r dull gweithredu newydd.[52]

**Argymhelliad 16.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am berfformiad TPAS Cymru pan fo data monitro perfformiad ar gael.

---

[50] Cofnod y Trafodion, paragraff 270, 15 Tachwedd 2017
[51] Cofnod y Trafodion, paragraff 272, 15 Tachwedd 2017
[52] Cofnod y Trafodion, paragraff 274, 15 Tachwedd 2017

**Alun Davies AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus**
**Cabinet Secretary for Local Government and Public Services**

Atodiad 1 – Gohebiaeth rhwng Llywodraeth Cymru a'r Pwyllgor

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-P/MD/3688/17

John Griffiths AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

SeneddCymunedau@cynulliad.cymru

13 Tachwedd 2017

Annwyl John

Cyn i mi ymuno â chi yn eich cyfarfod ar 15 Tachwedd, roeddwn yn meddwl efallai y byddai'n ddefnyddiol i'r Pwyllgor gael rhagor o fanylion gen i am y trefniadau ar gyfer blaenoriaethu cyllid i ysgolion a gofal cymdeithasol o fewn y setliad llywodraeth leol yn 2018-19 a 2019-20.

Er mwyn gwneud hyn, rhaid i mi osod rhai egwyddorion allweddol sy'n sail i'r gwaith o gynhyrchu'r setliad llywodraeth leol.

Yr egwyddor allweddol gyntaf yw bod y setliad yn darparu cyllid craidd i awdurdodau lleol fel grant heb ei neilltuo. Mae hynny'n golygu, er bod angen gwneud rhai rhagdybiaethau ynghylch yr "angen i wario" er mwyn darparu gwasanaethau sy'n dod o dan y setliad, bod pob cyngor unigol yn parhau i fedru gwneud ei benderfyniadau gwario ei hun, yn ôl anghenion a blaenoriaethau lleol a bennwyd drwy eu prosesau ymgynghori democrataidd eu hunain.

Yr ail egwyddor allweddol, er mwyn dosbarthu'r setliad mewn ffordd sy'n ystyried angen cymharol a gallu cymharol i godi incwm treth gyngor, yw bod y dosbarthiad yn cael ei seilio ar Asesiad o Wariant Safonol (SSA) cyffredinol sy'n ystyried cyllid Llywodraeth Cymru drwy'r Grant Cynnal Refeniw ac ardrethi annomestig wedi'u hailddosbarthu a rhagdybiaeth o swm cyffredinol y dreth gyngor a godir yn lleol.

Mae'r SSA cyffredinol yn cynnwys nifer o flociau SSA yn ymwneud â chategorïau cyffredinol o wasanaethau, fel ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Alun.Davies@llyw.cymru
Correspondence.Alun.Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.


Yn y lle cyntaf, mae'r cyllid sydd ar gael yn cael ei ddosrannu rhwng y blociau hyn gan ddefnyddio'r data diweddaraf ynghylch gwariant a gyllidebwyd, a gyflwynwyd gan yr awdurdodau lleol eu hunain. Mae hynny'n golygu bod dosbarthiad y setliad yn adlewyrchu cyfrannau cymharol gwariant awdurdodau lleol ar y blociau hyn.

Fodd bynnag, mae'n bosibl blaenoriaethu cyllid i floc SSA penodol drwy gynnwys adnoddau ychwanegol yn y bloc hwnnw.

Yn achos y setliad dros dro i lywodraeth leol, mae'r gostyngiad yn y cyllid sydd ar gael i'r dyraniad cychwynnol yn y gyllideb ddrafft wedi arwain at ostyngiad ym mhob un o'r blociau. Cytunodd Gweinidogion Cymru i ychwanegu £104 miliwn arall yn 2018-19 a £181 miliwn eto yn 2019-20 i'r setliad drwy ychwanegu cyllid i'r blociau SSA ar gyfer ysgolion a gofal cymdeithasol. Mae'r dyraniadau ychwanegol hyn yn ddigon i gynnal elfen Llywodraeth Cymru o'r blociau SSA ar gyfer ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol ar yr un lefel â'r hyn a ragdybiwyd ar gyfer setliad y flwyddyn bresennol.

Atodaf dablau i ddangos y symiau dan sylw. Mae Tabl 1 yn dangos sut y cafodd y cyllid ychwanegol ei adeiladu i sefydlu'r swm cyffredinol ar gyfer y setliad. Mae Tabl 2 yn dangos y cyllid ychwanegol sydd wedi'i ddosrannu i ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer 2018-19. Mae Tabl 3 yn dangos beth mae hyn yn ei olygu yn nhermau SSA unigol. Mae'r tabl hwn yn cyfateb i'r tablau setliad a gyhoeddwyd ar 10 Hydref.

Hyderaf y bydd y Pwyllgor yn gweld yr wybodaeth ychwanegol hon yn ddefnyddiol.



**Alun Davies AC / AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus
Cabinet Secretary for Local Government and Public Services

## Tabl 1: Dyraniadau Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru

*£000*

| Mesur | Dyraniad Cyllideb Derfynol 2017-18 | Dyraniad Cyllideb Gychwynnol 2018-19 | Swm ychwanegol 2018-19 | Dyraniad Cyllideb Ddrafft 2018-19 | Dyraniad Cyllideb Gychwynnol 2019-20 | swm ychwanegol 2019-20 | Dyraniad Cyllideb Ddrafft 2019-20 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Grant Cynnal Refeniw | 3,105,943 | 2,983,445 | 103,825 | 3,087,270 | 2,919,382 | 180,673 | 3,100,055 |
| Ardrethi Annomestig wedi'u hailddosbarthu | 1,006,050 | 999,400 | | 999,400 | 1,024,100 | | 1,024,100 |
| **Cyllid Allanol Cyfun** | **4,111,993** | **3,982,845** | **103,825** | **4,086,670** | **3,943,482** | **180,673** | **4,124,155** |

Noder: Ffigurau 2017-18 a 2018-19 heb gynnwys (a heb eu haddasu ar gyfer) trosglwyddiadau a chyllid atodol

## Tabl 2: Setliad dros dro llywodraeth leol 2018-19 - cyfrifo'r ymgodiad bloc gwasanaethau

*£000*

| Gwasanaeth | Cyllid Allanol Cyfun 2017-18 wedi'i ddosrannu ar gyllideb awdurdodau lleol 2017-18 | Cyllid Allanol Cyfun 2018-19 cyn cyllid 'ychwanegol' | Cyllid Ychwanegol | Cyllid Allanol Cyfun 2018-19 ar ôl cyllid 'ychwanegol' |
|---|---|---|---|---|
| Addysg Ysgolion | 1,554,065 | 1,493,792 | 61,789 | 1,555,581 |
| Addysg tu allan i Ysgolion | 26,093 | 25,081 | | 25,081 |
| Gofal Cymdeithasol | 1,057,243 | 1,016,239 | 42,036 | 1,058,275 |
| Trafnidiaeth | 133,824 | 128,633 | | 128,633 |
| Tân | 95,207 | 91,514 | | 91,514 |
| Gwasanaethau eraill | 1,245,562 | 1,227,585 | | 1,227,585 |
| **Cyfanswm** | **4,111,993** | **3,982,845** | **103,825** | **4,086,670** |

Noder: Cyllid Allanol Cyfun yw swm y Grant Cynnal Refeniw a'r Ardrethi Annomestig wedi'u hailddosbarthu, a dyma'r cyllid craidd heb ei neilltuo sy'n cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru i'r awdurdodau lleol.

Holl ffigurau heb gynnwys (a heb eu haddasu ar gyfer) trosglwyddiadau a chyllid atodol

## Tabl 3: Setliad dros dro llywodraeth leol 2018-19 - gwahaniaeth mewn SSA, cyn trosglwyddo

*£000*

| Gwasanaeth | SSA terfynol 2017-18, heb addasu ar gyfer trosglwyddiadau | SSA dros dro 2018-19, heb gynnwys trosglwyddiadau | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|
| Addysg Ysgolion | 2,156,457 | 2,191,906 | 35,448 |
| Addysg tu allan i Ysgolion | 40,798 | 35,765 | -5,034 |
| Gofal Cymdeithasol | 1,470,235 | 1,491,171 | 20,936 |
| Trafnidiaeth | 192,068 | 183,429 | -8,640 |
| Tân | 130,868 | 130,497 | -370 |
| Gwasanaethau eraill | 1,512,757 | 1,487,439 | -25,317 |
| **Cyfanswm** | **5,503,184** | **5,520,207** | **17,023** |

Noder: Holl ffigurau heb gynnwys (a heb eu haddasu ar gyfer) trosglwyddiadau a chyllid atodol

SSA (Asesiad o Wariant Safonol) yw swm y Cyllid Allanol Cyfun a lefel yr incwm treth gyngor sy'n cael ei rhagdybio

Mae awdurdodau yn derbyn cyllid o nifer o ffynonellau eraill, gan gynnwys incwm ffioedd a thaliadau a grantiau penodol. Gwariant Gwasanaethau Refeniw Gros awdurdodau lleol ar gyfer 2016-17 oedd £7.9 biliwn.

Alun Davies AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus;
Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip;
Rebecca Evans AC, y Gweinidog Tai ac Adfywio

16 Tachwedd 2017

Annwyl Alun, Julie, Rebecca

# Craffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19

Diolch am ddod i gyfarfod y Pwyllgor ar 15 Tachwedd i roi tystiolaeth ar y gyllideb ddrafft. Yn dilyn y cyfarfod, rwy'n ysgrifennu atoch ar y materion na wnaethom eu cyrraedd yn ystod y sesiwn, i lywio ein gwaith craffu ar y gyllideb ddrafft.

Er mwyn arbed amser, rwy'n ysgrifennu un llythyr yn cynnwys yr holl gwestiynau na chawsom gyfle i'w gofyn. Byddwn yn ddiolchgar pe gallwch anfon un ateb wedi'i gydlynu.

## Prif Grŵp Gwariant (MEG) Llywodraeth Leol

### Arolygiaethau:

- A allech chi egluro eich penderfyniad i leihau'r dyraniad ar gyfer y tair arolygiaeth (AGGCC, AGIC ac Estyn) o fewn y MEG 2.3 y cant mewn termau arian parod yn 2018-19 a 5.4 y cant yn 2019-20?

### Grantiau penodol:

- Pa ystyriaeth y gwnaethoch ei rhoi i drosglwyddo grantiau eraill sy'n eistedd y tu allan i'r RSG ar hyn o bryd?

- A ydych chi'n ystyried dyrannu grantiau yn y RSG yn y dyfodol ar y lefel a welwyd eleni? [Mae gwerth £91.7 miliwn o grantiau wedi'u cynnwys yn y RSG ar gyfer 2018-19]

### Treth Gyngor a Chynllun Lleihau Treth Gyngor (CTRS)

- A allwch chi gadarnhau y bydd cyllid ar gyfer y CTRS yn cael ei gynnal ar y lefel bresennol ar gyfer 2019-20?

### Cronfeydd Wrth Gefn Llywodraeth Leol

- Beth yw eich barn am bryderon CLlLC fod y costau y gellir eu priodoli i'r gweithlu yn debygol o arwain at doriadau pellach i wasanaethau rheng flaen? [Yn ei phapur, mae CLlLC yn tynnu sylw at gostau gweithlu fel pwysau cost allweddol. Mae'n cyfeirio at y costau anorfod y gellir eu priodoli i'r gweithlu ac yn nodi y bydd y rhain, os y cânt eu gweithredu, yn arwain at doriadau anochel i wasanaethau rheng flaen.]

## MEG Cymunedau

### Cynhwysiant ariannol a gwasanaethau cynghori

- Sut mae'r Cynllun Cyflawni Cynhwysiant Ariannol a'r Cynllun Gweithredu Gwybodaeth a Chyngor wedi dylanwadu ar y dyraniadau cyllideb drafft?

- Faint o arian ychwanegol sydd wedi'i ddyrannu i'r Rhaglen Hawliau Lloches i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn ymchwiliad y Pwyllgor mewn cysylltiad â gwelliannau i gyngor cyfreithiol, sgrinio iechyd a chymorth iechyd meddwl?

- Pryd mae disgwyl i'r darpariaethau ddod i rym sydd ym Mesur Hawliadau ac Arweiniad Ariannol Llywodraeth y DU yn ymwneud â datganoli cyllid ar gyfer cyngor am ddyledion?

## Y trydydd sector:

- Mae ‘Ffyniant i Bawb’ yn cynnwys ymrwymiad i greu perthynas gynaliadwy gyda'r sector gwirfoddol yn seiliedig ar y model ariannu cywir – beth mae hynny'n ei olygu a sut caiff ei adlewyrchu yn eich dyraniadau?

## Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol

- Sut byddwch yn sicrhau bod y buddsoddiad ychwanegol yn y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol yn darparu gwerth am arian?

## Diogelwch cymunedol

- Beth oedd amcangyfrif cost Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 i Lywodraeth Cymru pan gafodd ei phasio yn 2015, a faint mae wedi costio mewn gwirionedd bob blwyddyn, a pham bod unrhyw wahaniaethau?
- Beth yw eich barn ar Adolygiad Charlie Taylor o'r System Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru a Lloegr, yn enwedig yr argymhelliad i gyflwyno arian ar gyfer gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid i gyllid llywodraeth leol?

## Cefnogi Pobl

- Pa gynnydd a wnaed i sicrhau bod arian ar gyfer Cefnogi Pobl yn cael ei ddosbarthu ar sail angen, a pha effaith y bydd uno grantiau yn ei chael ar hyn?

## Cyflenwad a safonau tai

- Pa werthusiad a wnaed o'r Grant Cyllid Tai o ran eu gwerth am arian?

## Deddfwriaeth

- O ystyried y ffaith y bydd mwy na miliwn o bobl yn cael eu heffeithio gan weithrediad Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, sut aseswyd y costau sy'n ofynnol i gyfathrebu'r newidiadau i'r partïon a effeithir?

Byddem yn gwerthfawrogi pe gallech ateb erbyn diwedydd y dydd, ddydd Iau 23 Tachwedd.

Yn gywir

John

John Griffiths AC
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Alun Davies AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus**
**Cabinet Secretary for Local Government and Public Services**

**Julie James AC/AM**
**Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip**
**Leader of the House and Chief Whip**

**Rebecca Evans AC/AM**
**Y Gweinidog Tai ac Adfywio**
**Minister for Housing and Regeneration**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

John Griffiths AC
Cadeirydd
Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

SeneddCommunities@assembly.wales

23 Tachwedd 2017

Annwyl John

Mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 16 Tachwedd 2017, mae'n bleser gennym ddarparu'r wybodaeth ychwanegol y gwnaethoch ofyn amdani ar ôl inni fynychu cyfarfod y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar 15 Tachwedd 2017.

## PRIF GRŴP GWARIANT (MEG) LLYWODRAETH LEOL

### Arolygiaethau

***A allech chi egluro eich penderfyniad i leihau'r dyraniad ar gyfer y tair arolygiaeth (AGGCC, AGIC ac Estyn) o fewn y MEG 2.3 y cant mewn termau arian parod yn 2018-19 a 5.4 y cant yn 2019-20?***

Mae'r gostyngiadau ar gyfer y tair arolygiaeth yn gyson â'r gostyngiad yng nghostau rhedeg Llywodraeth Cymru. Mae'n bwysig ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff hyn gyflawni'r un faint o arbedion effeithlonrwydd â rhannau eraill o Lywodraeth Cymru. Nid yw hyn yn tanseilio rolau pwysig y cyrff hyn.

Mae'r arolygiaethau eisoes yn cymryd camau i sicrhau arbedion ac i dargedu eu hadnoddau yn fwy effeithiol. Bydd hyn yn lleihau effaith y gostyngiadau i'r gyllideb ac yn sicrhau bod y gwasanaethau arolygu hyn yn parhau i ddatblygu'r sicrwydd angenrheidiol y rhoddir blaenoriaeth lwyr i ddiogelwch y bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau.

### Grantiau penodol

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Alun.Davies@llyw.cymru
Correspondence.Alun.Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

***Pa ystyriaeth y gwnaethoch ei rhoi i drosglwyddo grantiau eraill sy'n eistedd y tu allan i'r RSG ar hyn o bryd?***

Byddaf yn annog fy nghydweithwyr yn y Cabinet i barhau i adolygu’r grantiau yn eu portffolios eu hunain. Fel Cabinet, yr ydym yn cytuno y dylid rheoli’r cyllid sydd ar gael mewn ffordd mor effeithlon â phosibl er mwyn lleihau’r costau gweinyddol a sicrhau bod cymaint â phosibl o’r cyllid yn cyrraedd gwasanaethau rheng flaen. Mae hyn yn cynnwys edrych ar y cyfleoedd i uno neu symleiddio’r grantiau perthnasol yn ogystal ag ystyried yr opsiwn i’w trosglwyddo i RSG.

O ran Cyllideb Ddrafft 2018-19, edrychodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol ar y pryd ar yr holl grantiau penodol ar draws pob portffolio Gweinidogol, gyda’r bwriad o geisio trosglwyddo cymaint o’r rhain â phosibl i’r setliad, fel y bo’n briodol, er mwyn rhyddhau’r cyllid sy’n cael ei ddefnyddio yn awr i weinyddu’r grantiau a chynyddu’r hyblygrwydd i awdurdodau lleol ar draws y ffrydiau ariannu.

Cyfeiriodd CLlLC yn ei thystiolaeth at amcangyfrif Swyddfa Archwilio Cymru o’r posibilrwydd y gellir arbed hyd at 10% o gostau gweinyddol drwy ddadneilltuo cyllid.

Yn ogystal â’r cyllid sy’n cael ei drosglwyddo i’r setliad, mae meysydd polisi hefyd yn cyfuno grantiau presennol gyda’r bwriad o leihau costau gweinyddol a darparu mwy o hyblygrwydd.

***Ydych chi'n ystyried dyrannu grantiau yn y RSG yn y dyfodol ar y lefel a welwyd eleni? [Mae gwerth £91.7 miliwn o grantiau wedi'u cynnwys yn y RSG ar gyfer 2018-19]***

Mae Llywodraeth Leol wedi gofyn yn gyson i grantiau penodol gael eu dadneilltuo ac, yn unol â’r trywydd a ddilynwyd gan Weinidogion blaenorol, byddaf yn gweithio gyda fy nghydweithwyr yn y Cabinet i drosglwyddo cyllid pellach i’r setliad yn y dyfodol. Bydd hyn yn cynnwys edrych yn fanwl ar y cyllid sy’n cael ei ddarparu ar hyn o bryd drwy grantiau penodol ac asesu’r dull cyflenwi mwyaf priodol er mwyn cyflawni’r canlyniadau a ddymunir.

## Treth Gyngor a Chynllun Lleihau Treth Gyngor (CTRS)

***A allwch chi gadarnhau y bydd cyllid ar gyfer y CTRS yn cael ei gynnal ar y lefel bresennol ar gyfer 2019-20?***

Cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid y cynlluniau i greu cynllun i leihau’r dreth gyngor ar 9 Hydref. Rydym yn bwriadu parhau â’r hawliadau llawn i gymorth ar gyfer aelwydydd cymwys yn ystod 2018-19. Nid oes unrhyw fwriad i leihau’r cymorth ar gyfer aelwydydd incwm isel. Byddwn yn edrych ar yr opsiynau ar gyfer y cynllun yn y tymor hwy, fel rhan o’r gwaith o gyflawni ein hymrwymiad i wneud y dreth gyngor yn decach.

## Cronfeydd Wrth Gefn Llywodraeth Leol

***Beth yw eich barn am bryderon CLlLC fod y costau y gellir eu priodoli i'r gweithlu yn debygol o arwain at doriadau pellach i wasanaethau rheng flaen? [Yn ei phapur, mae CLlLC yn tynnu sylw at gostau gweithlu fel pwysau cost allweddol. Mae'n cyfeirio at y***

***costau anorfod y gellir eu priodoli i'r gweithlu ac yn nodi y bydd y rhain, os cânt eu gweithredu, yn arwain at doriadau anochel i wasanaethau rheng flaen.]***

Mae polisi Llywodraeth y DU ar gyflogau'r sector cyhoeddus wedi creu problemau gwirioneddol a sylweddol i staff llywodraeth leol a'u teuluoedd. Mae gan Lywodraethau ar draws y DU gyfrifoldeb i drin gweision cyhoeddus yn deg ac yn gyfartal. Mae'n rhaid i hyn gael ei ariannu gan Lywodraeth y DU.

Blaenoriaeth Llywodraeth Cymru yw parhau i ddiogelu'r gwasanaethau cyhoeddus rhag effeithiau gwaethaf cyni. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda llywodraeth leol i ddiogelu gwasanaethau rheng flaen hollbwysig, gan gynnwys ysgolion a gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, mae diwygio yn hollbwysig os ydym am sicrhau bod awdurdodau lleol yn gydnerth yn ariannol ac yn gallu cynnal a gwella ansawdd eu gwasanaethau er mwyn cyflawni anghenion dinasyddion Cymru yn y dyfodol. Nid mater o arian yn unig yw hyn, mae hefyd yn golygu ffordd newydd o weithio. Rydym eisiau datblygu cydnerthedd a chefnogi'r broses o adnewyddu llywodraeth leol er mwyn sicrhau ei bod yn gynrychioliadol, yn effeithlon ac yn effeithiol, yn ddarbodus, yn gydnerth ac yn integredig.

## CYMUNEDAU

### Cynhwysiant ariannol a gwasanaethau cynghori

***Sut mae'r Cynllun Cyflawni Cynhwysiant Ariannol a'r Cynllun Gweithredu Gwybodaeth a Chyngor wedi dylanwadu ar y dyraniadau cyllideb drafft?***

Mae'r camau sydd wedi'u hamlinellu yn y Cynllun Cyflawni Cynhwysiant Ariannol a'r Cynllun Gweithredu Gwybodaeth a Chyngor (a gyhoeddwyd yn Rhagfyr 2016) yn canolbwyntio ar fynd i'r afael ag allgau ariannol a sicrhau gwasanaethau cyngor cryf sydd wedi'u hintegreiddio'n dda. Mae'r ddau gynllun wedi dylanwadu'n fawr ar ddyraniadau'r gyllideb ddrafft.

Mae Cynhwysiant Ariannol yn hollbwysig er mwyn gwella llesiant pobl sy'n byw yng Nghymru drwy, er enghraifft, roi mynediad iddynt i gyllid fforddiadwy a mynediad i wasanaethau gwybodaeth a chyngor dibynadwy ac annibynnol. Mae'r rhain yn hollbwysig er mwyn rhoi cyfle teg i bawb yng Nghymru mewn bywyd, drwy eu helpu i ddeall ac arfer eu hawliau a gwneud dewisiadau gwybodus.

Gwyddom gan Gyngor ar Bopeth ac eraill y bydd gweithredu gwasanaeth llawn y Credyd Cynhwysol yn cyflwyno heriau pellach i'n bobl sydd fwyaf agored i niwed. Efallai y bydd llawer o bobl yn canfod eu bod yn wynebu argyfwng, felly mae £1 filiwn ychwanegol wedi'i chynnwys yn y gyllideb y flwyddyn nesaf er mwyn sicrhau y gallwn barhau i gefnogi'r rhai sydd angen y cymorth hwn fwyaf.

Yn Atodiad 2 mae copi o'r llythyr a anfonwyd gan y Gweinidog Tai ac Adfywio at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau ar 7 Tachwedd am y Credyd Cynhwysol.

***Faint o arian ychwanegol sydd wedi'i ddyrannu i'r Rhaglen Hawliau Lloches i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd yn ymchwiliad y Pwyllgor mewn cysylltiad â gwelliannau i gyngor cyfreithiol, sgrinio iechyd a chymorth iechyd meddwl?***

Mae'r Rhaglen Hawliau Lloches yn cael ei hariannu drwy Raglen Cydraddoldeb a Chynhwysiant 2017-20 Llywodraeth Cymru. Mae'r rhaglen hon yn cael ei chyflawni gan gonsortiwm sy'n cael ei arwain gan Gyngor Ffoaduriaid Cymru ac sy'n cynnwys Tros Gynnal Plant, EYST, Bawso, Asylum Justice, City of Sanctuary ac Alltudion ar Waith. Dechreuodd y gwasanaeth newydd ar 1 Ebrill 2017 am gyfnod o 3 blynedd ac mae ganddo werth dangosol o £1.065 miliwn.

Mae'r ffigur hwn yn gynnydd o £225,000 dros dair blynedd ar y swm a oedd wedi'i ddyrannu'n wreiddiol ar gyfer y rhaglen hon. Cytunwyd ar y cynnydd hwn gyda chyn Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant yn 2016, yn dilyn ymgysylltu â rhanddeiliaid. Nid yw'r gyllideb ar gyfer y Rhaglen Hawliau Lloches wedi'i chynyddu ymhellach ar ôl cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor. Fodd bynnag, mae'r rhaglen yn cael ei haddasu yn awr yng ngoleuni'r adroddiad hwnnw, er mwyn gwneud yn siŵr bod adnoddau'n cael eu targedu cymaint â phosibl er mwyn mynd i'r afael â'r materion a nodwyd gan y Pwyllgor, os mai'r Rhaglen Hawliau Lloches yw'r dull gorau o wneud hynny, ochr yn ochr â darpariaeth arall.

Mae rhaglen Cymru gyfan yn cwmpasu pob ceisiwr lloches a ffoadur yng Nghymru, yn ogystal â'r rhai yn y pedair ardal wasgaru (Caerdydd, Wrecsam, Casnewydd ac Abertawe). Mae'r Rhaglen Hawliau Lloches yn canolbwyntio ar gymorth ymarferol, gan gynnwys cyngor ar geisiadau am loches, helpu pobl i osgoi amddifadrwydd, mynediad i wasanaethau gofal iechyd a chwnsela, ac annog integreiddio. Mae'r dull cydgysylltiedig hwn yn helpu i wneud y gorau o gyfraniad sylweddol sefydliadau cymunedol wrth gynorthwyo ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid gan gynnwys llywodraeth leol, gwasanaethau iechyd a Chlymblaid Ffoaduriaid Cymru i ddatblygu cynllun cyflawni newydd i ffoaduriaid a cheiswyr lloches, gan gyfeirio at adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, "I used to be someone." Fel rhan o'r gwaith hwnnw, mae swyddogion yn adolygu beth arall y gellir ei wneud i gefnogi ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

Rydym yn cydnabod yr angen am gymorth ar gyfer iechyd corfforol a meddyliol ond nid y Rhaglen Hawliau Lloches yw'r dull mwyaf priodol o ddarparu hyn. Byddwn yn gweithio gyda Phractis Mynediad at Iechyd Caerdydd (CHAP), Llywodraeth y DU a'r darparwr llety lloches i sicrhau bod ceiswyr lloches yn derbyn negeseuon priodol yn eu hatgoffa am apwyntiadau iechyd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi llwybr gofal iechyd meddwl yn ddiweddar drwy Gylchlythyr Iechyd Cymru (2007) 009. Rydym wedi sicrhau bod £40,000 ar gael yn ddiweddar i gefnogi byrddau iechyd lleol i hyfforddi clinigwyr iechyd meddwl plant a'r glasoed ac oedolion ar gyfer trin plant ac oedolion sy'n ffoaduriaid a cheiswyr lloches sy'n dioddef o anhwylder straen wedi trawma, ac maent wedi cyhoeddi llwybr gofal iechyd meddwl er mwyn cefnogi diagnosis a thriniaeth fwy effeithlon ac effeithiol.

Mae Llywodraeth y DU wedi datgan yn ddiweddar ei bod yn dymuno buddsoddi mewn hyfforddiant ar y materion hyn ar gyfer staff rheng flaen mewn awdurdodau lleol, a cheisio datblygu dull gweithredu cyson ar draws y DU.  Rydym yn cynnal trafodaethau gyda’r Swyddfa Gartref, Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, o ran beth fyddai’n briodol i Gymru.

***Pryd mae disgwyl i’r darpariaethau ddod i rym sydd ym Mesur Hawliadau ac Arweiniad Ariannol Llywodraeth y DU yn ymwneud â datganoli cyllid ar gyfer cyngor am ddyledion?***

Disgwylir i’r cyllid wedi’i ddatganoli ar gyfer cyngor ar ddyledion ddod i rym o fis Ebrill 2019 ymlaen, ond mae’n bosibl y gallai gael ei gyflwyno’n gynharach, ar ddiwedd 2018 a dechrau 2019.  Mae fy swyddogion yn parhau i weithio’n agos gyda Thrysorlys Ei Mawrhydi a swyddogion yr Adran Gwaith a Phensiynau ar hyn.  Rydym wedi pwysleisio’r angen i gael ein cynnwys mewn Grwpiau Pontio cyn sefydlu’r Corff Arweiniad Ariannol Unigol.

## Y trydydd sector

***Mae ‘Ffyniant i Bawb’ yn cynnwys ymrwymiad i greu perthynas gynaliadwy gyda'r sector gwirfoddol yn seiliedig ar y model ariannu cywir - beth mae hynny'n ei olygu a sut caiff ei adlewyrchu yn eich dyraniadau?***

Mae Ffyniant i Bawb yn cyfeirio at yr angen i ystyried yn ofalus pa fodel ariannu sy’n gweddu orau i ganlyniadau effeithiol, gan fod yn sensitif ar yr un pryd i’r heriau sy’n wynebu nifer o sefydliadau’r sector gwirfoddol.  Mae cyllid tymor byr, rhybudd annigonol am barhad cyllid neu gyllid sy’n dod i ben yn broblemau sy’n gallu cael effaith negyddol ar gynaliadwyedd sefydliadau’r trydydd sector.  Gall caffael gan y gwasanaethau cyhoeddus yn hytrach na chyllid grant hefyd gael effaith ar sefydliadau llai yn y trydydd sector.

Bydd y model ariannu cywir yn amrywio yn ôl y canlyniad a ddymunir ac mae’n bwysig bod cyllidwyr yn ystyried hyn yn ofalus.  Mae’r Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu’r Trydydd Sector yn cynnwys adrannau sy’n hyrwyddo ystyriaeth ofalus o’r model cywir.

Mae’r cyllid ar gyfer Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector wedi’i gynnwys yn y gyllideb ar gyfer cymorth gwirfoddoli a chymorth i’r sector gwirfoddol a byddwn yn gweithio gyda’r Cyngor a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i nodi’r materion cynaliadwyedd sy’n gysylltiedig ag ariannu’r trydydd sector.

Nid Llywodraeth Cymru yw’r unig rai sy’n ariannu sefydliadau’r trydydd sector ac mewn cydweithrediad â gwaith y Cyngor Partneriaeth, mae fy swyddogion yn gweithio gyda rhanddeiliaid i baratoi canllawiau ar y Compactau lleol rhwng awdurdodau lleol a sefydliadau’r trydydd sector, a fydd yn cefnogi cyllido cynaliadwy.

## Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol

***Sut byddwch yn sicrhau bod y buddsoddiad ychwanegol yn y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol yn darparu gwerth am arian?***

Fel rhan o'r broses asesu, gofynnir i ymgeiswyr ddangos tystiolaeth o'r costau amcangyfrifedig, a darparu tri dyfynbris busnes, gydag esboniad o'r rhesymau am eu dewis cyntaf. Rydym hefyd yn gofyn iddynt ddangos yr angen, cefnogaeth gymunedol, cynaliadwyedd hirdymor yn ogystal â, pan fydd hynny'n bosibl, arian cyfatebol tuag at gyfanswm costau'r prosiect arfaethedig. Drwy wneud hyn rydym yn ceisio sicrhau'r cydbwysedd rhwng cefnogi prosiectau sydd â photensial mawr i wella cyfleoedd mewn cymunedau, yn erbyn yr angen i ddiogelu pwrs y wlad.

## Diogelwch cymunedol

***Beth oedd <u>amcangyfrif</u> cost Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 i Lywodraeth Cymru pan gafodd ei phasio yn 2015, a faint mae wedi costio <u>mewn gwirionedd</u> bob blwyddyn, a pham bod unrhyw wahaniaethau?***

Cyfanswm cost amcangyfrifedig Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) oedd £1,406,800 ar gyfer pedair blynedd (2014-2015 to 2017-2018). Cost wirioneddol y Ddeddf, heb y costau staffio, yw tua £927,292 (sy'n cynnwys y cyllid sydd wedi'i ddyrannu ar gyfer y flwyddyn ariannol hon). Mae'r costau hyn yn cynnwys datblygu a chyflawni'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol, Gofyn a Gweithredu, a recriwtio a rôl y Cynghorydd Cenedlaethol.

Roedd y gwariant ar y Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol yn uwch na'r hyn a ragwelwyd yn 2014-2015. Manteisiwyd ar y cyfle i ddefnyddio cyllid o rannau eraill o gyllideb Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol i gyflymu'r broses o gyflawni'r Fframwaith a dechrau ar y gwaith manwl o ddatblygu rhannau penodol ohoni.

Dechreuodd y gwaith cynnar o fabwysiadu 'Gofyn a Gweithredu' yn 2015-2016 ac mae rhaglen o gyflwyno 'Gofyn a Gweithredu' fesul cam yn genedlaethol wedi dechrau, yn hytrach na'r cyflwyniad cenedlaethol a ragwelwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae hyn wedi arwain at lai o wariant ar y polisi hwn fesul blwyddyn, o gymharu â'r rhagolwg. Y rheswm am gyflwyno fesul cam yw:

- er mwyn sicrhau bod yr hyn a ddysgwyd yn sgil cyflwyno'r cynllun yn gynnar yn llywio gwaith yn y dyfodol;
- cynorthwyo awdurdodau perthnasol i fabwysiadu 'Gofyn a Gweithredu' yr un pryd ag yr oeddent yn cyflawni'r gwasanaeth yn rhanbarthol;
- cynorthwyo'r awdurdodau perthnasol i addasu i ofynion y ddeddfwriaeth sy'n cael eu mabwysiadu ochr yn ochr â deddfwriaeth arall (Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol).

***Beth yw eich barn ar Adolygiad Charlie Taylor o'r System Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru a Lloegr, yn enwedig yr argymhelliad i gyflwyno arian ar gyfer gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid i gyllid llywodraeth leol?***

Rydym yn parhau i ymgysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wrth iddi ddatblygu'r Rhaglen Diwygio Cyfiawnder Ieuenctid ar draws Cymru a Lloegr. Bydd unrhyw newid yn fformiwla ariannu'r Timau Troseddau Ieuenctid yn Lloegr yn anochel yn cael effaith ar Gymru.

O ran egwyddor, byddem yn cefnogi unrhyw argymhelliad i ddarparu mwy o hyblygrwydd i awdurdodau lleol fel sy'n cael ei gynnig yn adolygiad Charlie Taylor. Fodd bynnag, byddai angen inni ystyried yn ofalus unrhyw newid mewn polisi oherwydd ni ellir edrych ar unrhyw newid mewn cyllid ar wahân i'r polisi, yn arbennig yng nghyd-destun meysydd sydd heb eu datganoli.

Byddai angen trafodaethau penodol ynglŷn ag unrhyw newid i'r trefniadau cyllid a/neu drosglwyddo cyllid oherwydd ni ellir cymryd yn ganiataol y byddai dull a fyddai'n cael ei ddatblygu o bosibl yn Lloegr yn addas yng Nghymru. Felly, bydd swyddogion yn parhau i weithio'n agos â swyddogion y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar bob agwedd ar ddiwygio, yn arbennig pan fydd hynny'n cael effaith ar wasanaethau datganoledig.

## Cefnogi Pobl

***Pa gynnydd a wnaed i sicrhau bod arian ar gyfer Cefnogi Pobl yn cael ei ddosbarthu ar sail angen, a pha effaith y bydd uno grantiau yn ei chael ar hyn?***

Roedd Adolygiad Aylward yn cynnig ailddosbarthu'r cyllid ar gyfer Cefnogi Pobl ac roedd hyn yn mynd rhagddo nes i doriadau yn y gyllideb achosi i'r gwaith hwn gael ei atal. Cafodd hyn ei gynnig gan Fwrdd Cynghori Cenedlaethol Cefnogi Pobl, lle y cafodd rhanddeiliaid allweddol eu cynrychioli, a derbyniwyd hynny gan Weinidogion Cymru. Nid yw'r gyllideb Cefnogi Pobl wedi newid ers 2015-16, ac nid oes unrhyw waith wedi'i wneud ers hynny ar ailddosbarthu. Pe byddai'r cyllidebau'n cael eu huno, byddai'r swm a fyddai'n cael ei roi i bob awdurdod lleol yn gyfwerth â dyraniad eleni.

Yn 2018-19 bydd y telerau a'r amodau ar gyfer Cefnogi Pobl yn yr awdurdodau braenaru yn parhau fel y maent eleni fwy na heb; bydd Awdurdodau Lleol yn cael eu dwyn i gyfrif yn yr un ffordd a disgwylir iddynt gyflawni'r un canlyniadau.

Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda rhanddeiliaid braenaru ac eraill i sicrhau, os penderyfnir symud i un grant cyfunol sengl, bod hynny'n cael ei gefnogi gyda thelerau, amodau ac atebolrwydd addas sy'n sicrhau bod y grant cyfunol yn parhau i gyflawni'r canlyniadau a ddymunir. Mae'r gwaith hwn gyda rhanddeiliaid eisoes wedi dechrau.

## Cyflawniad a Safonau Tai

***Pa werthusiad a wnaed o'r Grant Cyllid Tai o ran eu gwerth am arian?***

Mae'n ofynnol i bob cynllun sy'n cael ei gymeradwyo o dan y Grant Cyllid Tai gyflawni meini prawf Llywodraeth Cymru ar werth am arian sy'n cael eu cyhoeddi yn ein Ffigurau Canllawiau Costau Derbyniol. Mae gan y Grant Cyllid Tai fesur gwerth am arian ychwanegol o ran sut mae'n cael ei gyfrifo. Defnyddir y gyfradd fenthyca ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig unigol. Fodd bynnag, mae'r gyfradd yn cael ei

chapio gan Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau gwerth am arian. Dewiswyd y cap fel y pris gorau y gellir ei gyflawni yn y farchnad pan gafodd y cyllid ei sicrhau.

## Deddfwriaeth

***O ystyried y ffaith y bydd mwy na miliwn o bobl yn cael eu heffeithio gan weithrediad Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, sut aseswyd y costau sy'n ofynnol i gyfathrebu'r newidiadau i'r partïon a effeithir?***

Yn unol â'r Memorandwm Esboniadol a oedd wedi'i atodi i'r Ddeddf, mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu cyfanswm o £160,000 i'r gost o gyfleu'r newidiadau i denantiaid, landlordiaid a rhanddeiliaid eraill. Dyrannwyd £100,000 yn 2018-19 wrth baratoi i'w weithredu, gydag £20,000 ym mhob un o'r tair blynedd ddilynol er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth.

Mae ystod eang o landlordiaid cymdeithasol a phreifat yn rhan o'n Grŵp Rhanddeiliaid Rhentu Cartrefi, yn ogystal â chynrychiolwyr tenantiaid a sefydliadau gan gynnwys Shelter Cymru a Cyngor ar Bopeth. Byddwn yn parhau i ymgysylltu'n agos â'n rhanddeiliaid o ran gweithredu, gan sicrhau trefniadau cyfathrebu cydgysylltiedig.

## Pwyntiau gweithredu gan y Pwyllgor Craffu

Ar 17 Tachwedd ysgrifennodd Clerc y Gymuned atoch gyda chwe phwynt gweithredu, sef:

- Cyfanswm y symiau wrth gefn ar gyfer pob awdurdod lleol yn 2017 (gweler yr ymateb yn **Atodiad 1**);
- Dadansoddiad o gronfeydd wrth gefn awdurdodau lleol yn y blynyddoedd diwethaf (gweler yr ymateb yn **Atodiad 1**);
- Manylion telerau grantiau penodol a fydd yn canolbwyntio ar ddigartrefedd, yn y MEG cymunedau a phlant;
- Unrhyw wybodaeth bellach am y safleoedd newydd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr sy'n cael eu hariannu gan gyllid cyhoeddus i'w cyflawni yn 2018-19, pan fydd ar gael;
- Y canfyddiadau o'r dadansoddiad data yn y dyfodol ar bob addasiad i gartrefi, pan fydd ar gael;
- Yr arian sydd wedi'i ddyrannu ar gyfer gweithredu Rhentu Doeth Cymru ac, yn benodol, ar gyfer beth y caiff ei ddefnyddio.

### Manylion telerau'r grantiau penodol a fydd yn canolbwyntio ar ddigartrefedd, yn y MEG cymunedau a phlant

Ni allwn ddarparu'r telerau manwl eto ar bob un o'r rhaglenni grant ar gyfer 2018-19 oherwydd mae'r rhain yn cael eu datblygu yn awr, fodd bynnag bydd y prif ffocws ar atal digartrefedd.

Disgwylir i'r amcanion eraill a fydd yn cael eu datblygu drwy'r cyllid ychwanegol gynnwys mireinio'r ffocws ar roi terfyn ar ddigartrefedd ymysg pobl ifanc, lleihau nifer y bobl sy'n cysgu ar y stryd, atgyfnerthu'r ymatebion iechyd meddwl a gwella mynediad i'r sector tai rhent preifat.

**Unrhyw wybodaeth bellach am y safleoedd newydd i Sipsiwn a Theithwyr sy'n cael eu hariannu gan gyllid cyhoeddus i'w cyflawni yn 2018-19, pan fydd ar gael**

Bob blwyddyn mae Llywodraeth Cymru yn cynnal o leiaf un rownd cynnig agored er mwyn i awdurdodau wneud cais am y Grant Cyfalaf Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr. Cynhelir y rownd nesaf ymhen ychydig wythnosau a daw i ben ym mis Chwefror 2018. Gwneir y dyfarniadau grant ym mis Ebrill 2018 ar gyfer prosiectau sy'n dechrau yn y flwyddyn 2018-19. Byddwn yn ysgrifennu atoch ym mis Ebrill i'ch hysbysu ynghylch y prosiectau llwyddiannus.

Mae prosiect i ymestyn safle yng Ngwynedd ac adnewyddu safle mawr yn Sir Benfro eisoes wedi dechrau ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018-19, oherwydd mae'r prosiectau hyn eisoes wedi dechrau.

Rhwng 2017-21, disgwyliwn y byddwn wedi ariannu rhwng 150-200 o leiniau newydd, gyda'r 70-120 o leiniau y nodwyd y bod eu hangen yn cael eu cyflawni gan ddatblygiadau safleoedd preifat. Gwyddom y byddai'n well gan y mwyafrif o Sipsiwn a Theithwyr ddatblygu eu safleoedd preifat eu hunain ond nid yw hyn bob amser yn fforddiadwy. Yn 2017-18 yn unig, gwyddom fod 36 o leiniau preifat wedi cael caniatâd cynllunio. Felly, rydym yn hyderus y bydd ein cyllideb arfaethedig a dyletswyddau Deddf Tai (Cymru) 2014 i gefnogi datblygiad safleoedd yn diwallu'r galw yn llwyr.

**Y canfyddiadau yn sgil dadansoddi data yn y dyfodol a gesglir ar bob addasiad i gartrefi, pan fyddant ar gael**

Rydym wedi derbyn swm sylweddol o adroddiadau adborth unigol ar yr addasiadau a wnaed drwy ein rhaglenni. Rydym yn gweithio yn awr i godeiddio a dadansoddi'r data cyfoethog sydd ynddynt.

Ar ôl cwblhau'r ymarfer hwn gallwn, dros amser, ddefnyddio'r wybodaeth i'ch hysbysu am ein gwaith datblygu polisi, asesu beth sy'n cyfrif fel addasiad bach, canolig neu fawr, pa mor gyflym y dylid cyflawni'r addasiad, sut y dylai'r broses weithio a, nodi a mynd i'r afael ag unrhyw dagfeydd yn y system gyflawni.

**Yr arian sy'n cael ei ddyrannu i orfodi Rhentu Doeth Cymru ac, yn benodol, ar gyfer beth y bydd yn cael ei ddefnyddio.**

Mae'r drefn orfodi yn erbyn achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth â Rhentu Doeth Cymru yn cael ei ariannu, yn eu hanfod, gan y ffioedd sy'n daladwy ar gyfer cofrestru a thrwyddedu. Mae'r £275,000 a fydd ar gael yn 2018-19 yn helpu i hybu'r ddeddfwriaeth ymhellach. Bydd yr arian hwn yn cael ei wario mewn nifer o ffyrdd gwahanol. Mae rhai awdurdodau lleol yn

defnyddio’r adnoddau i dalu am hysbysebion ac ymgyrchoedd postio lleol, atgoffa asiantau a landlordiaid o’u goblygiadau a hefyd hysbysu tenantiaid am sut i sicrhau bod eu landlord a/neu eu hasiant wedi’u cofrestru a/neu eu trwyddedu’n briodol. Bydd eraill yn defnyddio’r arian i gysylltu’n uniongyrchol â landlordiaid ac asiantau naill ai drwy ymweliadau personol gan staff neu drwy gynnal fforymau landlordiaid ac asiantau.

Hyderwn fod y rhain yn esbonio’r pwyntiau ychwanegol a godwyd.

Yr eiddoch yn gywir

**Alun Davies AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus
Cabinet Secretary for Local Government and Public Services

**Julie James AC/AM**
Arweinydd y Tŷ a’r Prif Chwip
Leader of the House and Chief Whip

**Rebecca Evans AC/AM**
Y Gweinidog Tai ac Adfywio
Minister for Housing and Regeneration

ATODIAD 1

# CRONFEYDD WRTH GEFN AWDURDODAU LLEOL

## Mater

1. Darparu dadansoddiad o'r cronfeydd wrth gefn a ddelir gan awdurdodau lleol Cymru yn seiliedig ar y sefyllfa ar 31 Mawrth 2017.

## Crynodeb o'r sefyllfa ddiweddaraf – Cronfeydd wrth gefn

2. Daw'r data yn bennaf o'r wybodaeth a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol ar gyfer Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan 2016-17 (ac eithrio'r Heddlu, Gwasanaeth Tân a Pharciau Cenedlaethol). Mae hyn yn darparu'r sefyllfa gofnodedig ar gronfeydd wrth gefn awdurdodau lleol, fel y'u hadlewyrchir yng nghyfrifon statudol archwiliedig awdurdodau lleol.

3. Roedd gan awdurdodau lleol yng Nghymru gronfeydd wrth gefn o tua £1.4 biliwn ar ddiwedd mis Mawrth 2017. O'r ffigur hwn, roedd £74 miliwn wedi'i glustnodi ar gyfer tai, roedd £180 miliwn a £56 miliwn wedi'i gyfyngu i'w ddefnyddio ar wariant cyfalaf mewn derbyniadau cyfalaf a grantiau heb eu cymhwyso, yn y drefn honno.

4. O'r £1.1 biliwn o gronfeydd wrth gefn sy'n weddill, roedd £46 miliwn yn cael eu dal gan ysgolion ac nid oeddent ar gael i'w defnyddio gan yr awdurdodau, roedd £859 miliwn yn gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi ac roedd £200 miliwn yn gronfeydd wrth gefn heb eu dyrannu neu'n rhai cyffredinol.

5. O gymharu â'r flwyddyn flaenorol, mae cronfeydd wrth gefn ysgolion wedi gostwng **£18 miliwn**, mae cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi **wedi gostwng £15 miliwn** ac mae cronfeydd wrth gefn heb eu dyrannu wedi gostwng **£9 miliwn.**

6. Mae ***Tabl 1*** yn darparu manylion cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio ar 31 Mawrth 2017 ar gyfer pob un o gyrff llywodraeth leol yng Nghymru (gan gynnwys yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tân). Yn unol â threfniadau blaenorol, cyhoeddwyd hyn ar wefan Llywodraeth Cymru.

7. Y cyngor a roddir gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA), y prif gorff sy'n cefnogi'r proffesiwn cyllid awdurdodau lleol, yw y dylai pob awdurdod, ar gyngor ei gyfarwyddwyr cyllid, lunio eu barn eu hunain ar faterion o'r fath, gan ystyried yr holl amgylchiadau lleol perthnasol.

8. Mae balansau a chronfeydd wrth gefn yn ddarostyngedig i ganllawiau CIPFA ac yn rhan o ystyriaethau'r awdurdodau yn nhermau pennu cyllideb a gweithredu'r system ddarbodus.

9. Mae gan bob Cyfarwyddwr Cyllid gyfrifoldeb i gynghori ei awdurdod ynglŷn â'r lefelau y dylent eu cadw.  Er mwyn asesu digonolrwydd cronfeydd wrth gefn, dylai'r Cyfarwyddwr Cyllid ystyried y risgiau strategol, gweithredol ac ariannol sy'n wynebu'r awdurdod.

**Cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi**

1. Mae cronfeydd wrth gefn sydd wedi'u clustnodi yn cael eu dyrannu ar gyfer costau mawr a nodwyd ar gyfer y dyfodol, er enghraifft, prosiect adeiladu yn y dyfodol megis ysgol newydd, rhwymedigaethau yswiriant neu achos cyfreithiol mawr.  Mae'n bwysig i awdurdodau lleol sicrhau bod ganddynt brotocol clir ar gyfer pennu proses ac amserlen i adolygu'r cronfeydd wrth gefn sydd wedi'u clustnodi, i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol a digonol.

2. O gymharu â'r flwyddyn flaenorol, lleihaodd deuddeg awdurdod leihau eu lefelau o gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi, a oedd yn swm cyfunol o £52 miliwn.  O ran canran, gwelwyd y gostyngiadau mwyaf yn **Sir Benfro** a **Blaenau** Gwent, o 29% a 39% yn y drefn honno.

3. Mae hyn gyfwerth â gostyngiad o £20 miliwn yn ystod 2016-17 yn Sir Benfro, a ddefnyddiwyd yn bennaf i ariannu eu rhaglen ysgolion yr 21ain ganrif.

4. Gostyngodd cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi ym Mlaenau Gwent o £4 miliwn yn ystod 2016-17 i £6.5 miliwn, sy'n cynrychioli gwariant refeniw gros o 3.7% ar gyfer 2016-17 o gymharu â chyfartaledd Cymru o 12.2%.

5. Mae **Torfaen** wedi lleihau ei gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi 63% ers mis Mawrth 2012 a'i lefel bresennol o £5.3 miliwn yw'r isaf o blith yr holl gynghorau. Fodd bynnag, yn yr un cyfnod, mae eu cronfeydd wrth gefn cyffredinol wedi cynyddu i 81% sy'n cynrychioli £10.2 miliwn sy'n golygu mai hwy yw'r unig gyngor sydd â lefelau cronfeydd wrth gefn sy'n uwch na'u cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi.

6. Yn yr un modd mae cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi yn **Sir Fynwy** wedi gostwng 58% ers mis Mawrth 2012 ac ar £7.8 miliwn mae'n cynrychioli gwariant refeniw gros o 4.4% ar gyfer 2016-17 o gymharu â chyfartaledd Cymru o 12.2%.

7. Mae'r deg awdurdod sy'n weddill wedi cynyddu neu gynnal eu cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi, o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.  Gwelwyd y cynnydd mwyaf arwyddocaol ym **Mhen-y-bont ar Ogwr** ac yn **Sir Gaerfyrddin,** o £7.5 miliwn ac £8 miliwn yn y drefn honno.

8. Gwelwyd cynnydd bach ym **Mro Morgannwg** a **Chasnewydd** o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.  Fodd bynnag, mae hyn yn dilyn patrwm o gynnydd cynyddol dros nifer o flynyddoedd ac, o'u hagregu, mae'r lefelau ers 2012 wedi cynyddu £27 miliwn ym Mro Morgannwg (66%) a £28 miliwn yng Nghasnewydd (50%).  Ar 31 Mawrth 2017, roedd gan Fro Morgannwg gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi o £69 miliwn, sy'n gyfwerth â 25% o wariant refeniw gros ar gyfer 2016-17 ac roedd gan

Gasnewydd gronfeydd wrth gefn o £84 miliwn, sy’n gyfwerth â 23% o wariant refeniw gros, o gymharu â chyfartaledd Cymru o 12%.

9. Mae **Rhondda Cynon Taf** wedi cynyddu ei lefel o gronfeydd wrth gefn wedi’u clustnodi ac ar £126 miliwn, dyma’r uchaf o blith yr holl gynghorau, gan gynrychioli 22% o’u gwariant refeniw gros.

***Cronfeydd wrth Gefn Cyffredinol***

10. Balans gweithio yw hwn er mwyn helpu i leddfu effaith ffrydiau arian parod anghyfartal er mwyn osgoi benthyca dros dro diangen a darparu cynllun wrth gefn i leddfu effaith digwyddiadau neu argyfyngau annisgwyl.

11. O gymharu â’r flwyddyn flaenorol, mae deg awdurdod wedi cynyddu eu lefelau cyffredinol o gronfeydd wrth gefn, sef swm cyfunol o £14 miliwn.  Mae dau awdurdod wedi eu cynyddu fwy na 40%; cynnydd o £5.2 miliwn yng **Nghaerffili** (41%), a chynnydd o £2.3 miliwn yng **Nghonwy** (95%).

12. Gostyngodd wyth awdurdod eu lefelau gan swm cyfunol o £23 miliwn ac mae pedwar awdurdod wedi cynnal yr un lefel o gronfeydd wrth gefn â’r flwyddyn flaenorol.

13. Mae’r cronfeydd wrth gefn cyffredinol a ddelir gan awdurdodau lleol fel canran o’u gwariant refeniw gros a gyllidwyd ar gyfer 2016-17 yn amrywio o 5.7% yng **Nghastell-nedd Port Talbot** i 1.8% yng **Nghaerdydd**.

***Cronfeydd wrth Gefn Ysgolion***

14. O gymharu â’r flwyddyn ariannol flaenorol, gwelodd ugain awdurdod ostyngiad yn y cronfeydd wrth gefn a ddelir gan ysgolion.  Gwelwyd y gostyngiadau mwyaf yn Sir Ddinbych, lle y cafwyd gostyngiad o £2.6 miliwn i falans negyddol o £1.1 filiwn ac ym Mhowys gwelwyd gostyngiad o £2.4 miliwn i lai na £10,000.

***Tabl 1***
***Cronfeydd Wrth Gefn Awdurdodau Lleol***

Cronfeydd wrth gefn

| *Wedi'u dwyn ymlaen ar 31 Mawrth 2017* | **CRONFEYDD WRTH GEFN DEFNYDDIADWY** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cronfeydd wrth gefn Cyffredinol neu heb eu Dyrannu** | **Balans y Cyfrif Refeniw Tai (HRA)** | **Cronfa Derbyniadau Cyfalaf** | **Cronfa wrth gefn Ysgolion** | **Cyfrif Grantiau Cyfalaf heu eu Cymhwyso** | **Cronfeydd eraill wedi'u clustnodi wrth gefn** | **CYFANSWM Y CRONFEYDD DEFNYDDIADWY WRTH GEFN** |
| **Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** |
| Ynys Môn | 8.4 | 7.5 | 0.0 | 2.1 | 0.0 | 13.4 | 31.3 |
| Gwynedd | 6.2 | 0.0 | 8.4 | 0.5 | 0.5 | 6.5 | 22.1 |
| Conwy | 8.0 | 0.0 | 21.4 | 0.9 | 0.2 | 50.3 | 80.7 |
| Sir Ddinbych | 17.8 | 16.8 | 11.5 | 2.3 | 9.8 | 62.2 | 120.6 |
| Sir y Fflint | 14.3 | 12.5 | 7.2 | 4.2 | 0.0 | 55.1 | 93.3 |
| Wrecsam | 9.3 | 14.0 | 15.0 | 1.7 | 0.6 | 74.1 | 114.7 |
| Powys | 5.0 | 0.0 | 5.8 | 1.7 | 1.0 | 13.4 | 26.9 |
| Ceredigion | 4.8 | 0.0 | 2.5 | 3.2 | 1.0 | 13.2 | 24.8 |
| Sir Benfro | 7.5 | 2.5 | 4.8 | -1.1 | 3.8 | 30.3 | 48.0 |
| Sir Gaerfyrddin | 11.2 | 1.6 | 10.7 | 1.6 | 4.0 | 18.8 | 47.8 |
| Abertawe | 6.9 | 0.0 | 2.9 | 2.9 | 1.0 | 43.6 | 57.3 |
| Castell-nedd Port Talbot | 5.2 | 0.0 | 0.0 | 1.0 | 0.0 | 16.1 | 22.2 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 7.1 | 0.0 | 19.2 | 0.3 | 0.0 | 7.8 | 34.3 |
| Bro Morgannwg | 19.7 | 0.0 | 5.6 | 2.8 | 7.9 | 28.8 | 64.8 |
| Rhondda Cynon Taf | 6.5 | 0.0 | 11.7 | 4.8 | 0.0 | 84.1 | 107.2 |
| Merthyr Tudful | 7.0 | 0.8 | 2.1 | 1.3 | 0.0 | 48.8 | 59.9 |
| Caerffili | 8.7 | 1.8 | 15.4 | 0.0 | 1.0 | 28.3 | 55.2 |
| Blaenau Gwent | 10.7 | 0.0 | 1.4 | 2.1 | 8.6 | 126.1 | 148.9 |
| Tor-faen | 12.4 | 9.8 | 6.1 | 7.6 | 14.9 | 48.2 | 98.9 |
| Sir Fynwy | 10.2 | 0.0 | 6.3 | 2.1 | 0.1 | 5.3 | 24.1 |
| Casnewydd | 5.9 | 1.0 | 9.8 | 2.3 | 0.7 | 68.5 | 88.2 |
| Caerdydd | 7.0 | 6.0 | 11.9 | 1.6 | 0.7 | 16.2 | 43.6 |
| **Pob Cyngor Sir a Phob Cyngor Bwrdeistref Sirol** | **199.8** | **74.4** | **179.7** | **46.0** | **55.9** | **859.0** | **1,414.8** |

Mae cyhoeddiadau blynyddoedd blaenorol ar gael yn [http://gov.wales/topics/localgovernment/finandfunding/whole-government-accounts/publications/whole-government-accounts-reserves/?skip=1&lang=cy](http://gov.wales/topics/localgovernment/finandfunding/whole-government-accounts/publications/whole-government-accounts-reserves/?skip=1&lang=cy)